

YSGOL BANCYFELIN YN DATHLU 150



Mrs Ida Evans, Llysonnen, disgybl hynaf yr ysgol yn torri cacen y dathlu gyda Mille Morris, disgybl ieuengaf yr ysgol a Maldwyn Roberts yn cynrychioli'r bechgyn a fu'n ddisgyblion yn Ysgol Bancycfelin, gyda Phennaeth Ysgol Bancycfelin Mrs Trefina Jones.

Adroddiad llawn ar dudalen 10 ac 11

Yn y llun gyda Nansi gwelir Beti-Wyn James, Ysgrifennydd; Roy Llewellyn, Trysorydd; Wyn Evans ac Eurfyl Lewis, Cadeirydd.

Dyma englyn addas i gyfarch Nansi
I'w hardal ac i'r Cardi - yn hapus
Fe deipiodd heb holi
Dim yn ôl, a dyma ni
Heddiw'n ddyledus iddi.

Wyn Owens

Gwerthfawrogi Gwasanaeth

Diolch o galon Nansi

Cafodd Pwyllgor y Cardi Bach gyfle yn ddiweddar i ddiolch i Nansi Evans, ar ran yr holl ddarlennwyr, am ei gwaith yn teipio'r papur bro dros gyfnod o bron i ddeugain mlynedd. Cyflwynwyd copi clawr o'r rhifyn cyntaf mewn ffram iddi, ynghyd â twba o flodau, fel arwydd o werthfawrogiad am y gwaith graenus gyflawnodd dros gyfnod maith.

Bu Nansi yn gweithio'n ddiwyd wrth deipio'r holl newyddion a'r erthyglau oedd yn cyrraedd drwy'r post, mewn llawysgrifen yn amlach na pheidio, yn ystod blynyddoedd cynnar y Cardi Bach. Gyda threigl y blynyddoedd ac wrth i dechnoleg symud ymlaen, a gyda dyfodiad ebyst, gwelwyd lleihad sylweddol yn y nifer o erthyglau, newyddion ac ati oedd angen eu teipio. Wedi dweud hynny, roedd dal galw mawr ar wasanaeth Nansi i gyfieithu a teipio nifer o erthyglau a gwnaeth hynny gyda'i sirioldeb a'i diwydrwydd arferol. Cydweithiodd yn agos ac yn hapus gyda Rhoswen dros ddegawdau lawer a cyflawnodd ddiwrnod da o waith yn enw'r Cardi Bach.

Diolch o galon i chi Nansi am eich diwydrwydd, dyfalbarhad a'ch gwasanaeth di-flino wrth sicrhau bod y Cardi Bach yn cyrraedd y siopau yn brydlon bob mis.

Roedd Nansi'n dathlu ei phenblwydd yn 97 oed ar Ebrill 25ain a danfonwn ein cyfarchion cynhesaf ati oddi wrth holl ddarlennwyr y Cardi Bach, gan ddymuno iechyd da iddi am flynyddoedd eto.



Y CARDI BACH

Golygydd,	Eurfyl Lewis
Cadeirydd a	01994 419495
Dosbarthwr	
Is-gadeirydd:	Iola Wyn
	07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James
	01994 230966
Trysorydd,	
Ffotograffydd,	
Dosbarthwr	
drwy'r post a	Roy Llewellyn
Hysbysebion:	01994 448283
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen
	Evans
	01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones
	01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr::	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	Eurfyl Lewis
Cornel Coginio:	Winnie James
	01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans
	01994 448392
Cornel Garddio:	John Davies
	01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Mae'r cyfnod B.A yn ôl ! Byth Adre yw hwnnw! Dyddiadur poced pitw
oedd gen i yn 2021. Mae gen i glamp o ddyddiadur desg yn 2022 ! Ac mae
hwnnw'n prysur lenwi diolch byth.

Ond rhaid cyfaddef ei bod hi wedi cymryd tipyn o amser i addasu ar ôl dwy
flynedd o aros adre a gwneud fawr ddim yn fy amser sbâr. Mae'n rhwydd dod i
arfer â segurddod. Ond mae'r pen a'r galon yn dweud nad yw hynny yn opsiwn.
Felly o ymarferion côr canu i gôr llefaru, i de prynhawn a sioe ffasiynau,
i bêl-droed, Eisteddfod yr Urdd, y Genedlaethol a'r Sioe Fawr a mynychu
digwyddiadau cymunedol eraill - mae'n argoeli i fod yn Haf prysur yn llawn
hwyl a chwerthin.

A braf iawn oedd gweld gŵyl newydd sbon yn cael ei chynnal yng Nghrymch
ddechrau Mai. Roedd Gŵyl Fel 'na Mai yn llwyddiant ysgubol. Mae'n waith
caled trefnu digwyddiad ar y raddfa hon, ac mae gwneud hynny wedi dyddiau
Covid yn her ychwanegol. Felly diolch o galon i'r trefnwyr.

Prawf arall fod y dyddiau gwell wedi dod, ydy'r amrywiol briodasau sydd
wedi eu cynnal yn ddiweddar yn yr ardal. Braf iawn yw gweld cynifer o
luniau hapus a gwisgoedd bendigedig. A sôn am ddillad, mae'n dipyn o ysfa
prynu dillad newydd, ond dwi'n gorfod atgoffa fy hun yn aml nad ydw i wedi
gwisgo'r dillad a brynwyd yn 2019 eto ! Falle eu bod nhw'n 3 oed, ond mae'n
nhw'n newydd ! A Chardi ydw i yn y bôn.

Ar nodyn difrifol, gyda chostau byw a biliau ynni yn codi ar raddfa pryderus o
gyflym, bydd yn gyfnod anodd iawn i nifer fawr yn ein cymunedau. Ac mae'n
gysur gweld cynifer yn y fro hon yn sefydlu mentrau codi arian. A diolch yn
arbennig hefyd i wirfoddolwyr sy'n rhedeg banciau bwyd yn yr ardal.

Y tu hwnt i fanciau bwyd, mae gwirfoddolwyr wedi cynorthwyo ym mhob
agwedd o'n bywydau, bod hynny cyn Covid, yn ystod y cyfnodau clo, a'r
cyfnod presennol, wrth i ni geisio ail godi'r to, ac ail adeiladu ein cymunedau.

Mae'r gwaith hwnnw wedi dechrau, ac mae'n ymddangos fod sawl un eisoes
wedi cael chwistrelliad go egr o egni.

Os y medrwch, cefnogwch eu hymdrechion yr Haf hwn. Mae'n gwbwl
ddealladwy bod nerfusrwydd y pandemig yn parhau. Felly i'r rhai sydd am
gymryd camau bychain, gwnewch hynny. Mwynhewch weithgareddau a
fydd wedi eu trefnu yn yr awyr agored. Mae gwisgo mwgwd yn dal i fod
yn rhywbeth cwbl naturiol, a does neb yn edrych yn syn ar rywun sydd â
gorchudd wyneb.

Mae bro'r Cardi Bach yn weithgar, ac yn fôr o dalent. Ton oedd Covid – mae'r
môr yn ddi-ben-draw.

HYSBYSIAD WRTH CORLAN

Nawr fod pethau yn dechrau dychwelyd i rhyw fath o normalrwydd
ar ôl Cofid mae Corlan yn awyddys i ail fwrw ati eto i ddiddanu
cynulleidfaoedd ond....**mae angen aelodau newydd !**

Felly, ydych chi'n gallu canu ac yn hoff o ganeuon Cymraeg ysgafn?
Ydych chi'n mwynhau cymdeithasu? Beth amdani? Dyma gyfle
i ddechrau rhywbeth newydd ar ôl cyfnod digon anodd. Os oes
diddordeb gyda chi i ymuno â Corlan, cysylltwch â Ceirios Jenner
yr Arweinyddes drwy dudalen Facebook Corlan, Messenger neu ar
01994 419737. Ry'n ni'n edrych ymlaen i glywed wrthyh.

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH</u> (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meiniireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans 01994 448392
<u>MYNACH:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>EFAILWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN -</u> <u>FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u> <u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR*gan Y Parch. Aled Gwyn***Ail-asesu ein gwerthoedd traddodiadol**

Agoriad llygad oedd cael darllen sylwadau adeiladol y brawd Rhodri Glyn Thomas yn rhifyn mis Mawrth y Cardi Bach o dan y pennawd 'Troi Beichiau yn Asedau'. Mae'n cynnig arweiniad golau ac ysbrydoledig ar sail sefyllfa ein capeli heddiw yn sgil y dirywiad cyffredinol a welwn ac sydd wedi cael ei brysuro gan y Clo Mawr. Cofiaf ddarllen yn rhywle eiriau gŵr o'r enw Viktor Frankl, Awstriad oedd yn athronydd a seiceiatrydd ac a ddioddefodd yr Holocaust. Dywedodd hwnnw y gall popeth gael ei ddwyn oddi ar unrhyw berson heblaw un peth, y peth olaf sydd gennym, sef y gallu i ddewis ein hymateb a'n hagwedd tuag at unrhyw sefyllfa sy'n ein herio. Hwn yw ein gallu i ddewis ein ffordd i ail-asesu ein hagwedd meddwl a'n ffordd o fyw a'n gwerthoedd. Braint pawb yn eu cyfnod yw ail-asesu eu safbwynt.

Rwy'n cofio meddwl yn fy arddegau taw fel hynny fyddai popeth yn parhau yn ein capeli, ac yn aros yr un fath i'r dyfodol drwy ein cyfnod a'n bywydau ni. Ond bu'r newid yn syfrdanol yn enwedig yn awr yn sgil Covid a'r cyfyngiadau a osodwyd arnom. Yn nawdegau y ganrif ddiwethaf cafwyd ymdrech i uno'r enwadau, a byddai hynny heddiw, pe bai wedi digwydd, wedi lleihau effeithiau'r argyfwng presennol i ryw raddau, ond mae'r sefyllfa bresennol yn ysgytwol. Mae'r newid yn enbyd a bydd degau ar ddegau o gapeli yn cau. Yng Nghymru bydd yr hyn sy'n digwydd yn newid y tirlun ysbrydol o'r bon i'r brig ac yn newid y modd y byddwn yn mynegi ein cred.

Eisoes fel y tystia profiad Bethlehem Pwll-Trap, a phrofiad nifer arwyddocaol o gapeli o Ddyfed i Wynedd ac o Went i Glwyd, mae gwaith arloesol ac aberthol yn digwydd yn barod, a bydd yn cynyddu. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn anghofio a bychanu holl gyfraniad y capel i fywyd Cymru dros gyfnod maith o ran cynnal cred. Cofiwn genedlaethau o ymateb ymarferol drwy achosion da i liniaru anghenion cyd-ddyn yn agos a phell a'r holl ymdrechion clodwiw yn grefyddol, yn ddiwylliannol a chymdeithasol yr oedd y capeli yn gartref ac yn ysgogiad iddynt.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrol 'Pantycelyn a'n Picil ni heddiw' gan y meddyliwr di-arbed Cynog Davis, ar sail astudio gweithiau yr emynydd a'r proffwyd eithriadol hwnnw. Ynddo mae'n datgan mai hanfod holl waith William Williams yw mynegi rhyfeddod at y greadigaeth a Duw. Wrth ymhelaethu ar yr hyn all Pantycelyn ein harwain ato heddiw awgryma Cynog bod angen dim llai na diwygiad. Efallai bod yr ail asesu sy'n digwydd heddiw a'r arloesi mawr sydd i'w weld o ganlyniad i'r argyfwng presennol yn arwydd bod diwygiad ar waith – nid diwygiad emosiynol llawn teimladrwydd, ond diwygiad sydd yn hyrwyddo empathi yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.



**Pob lwc i bawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr
Urdd yn Ninbych Mai 30ain - Mehefin 4ydd**

CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Diolch i bawb am eu hymdrechion yn y pŵs Rhif a Gair (Countdown). Yn anffodus, os am gael sgôr uchel roedd yn rhaid cael ARBENIGWR yn ateb yn Rownd 5, am fod hynny yn rhoi 18 pwynt at eich sgôr. Cafodd pawb heblaw un, y rhifau i gyd yn iawn, er fod sawl ffyrdd i'w datrys. Methodd un person ddangos pob cam i'w gwblhau ac felly colodd ddeg o bwyntiau yma, neu byddai wedi bod yn gydradd gyntaf. Roeddwn yn eithaf llym yn marcio, ac er nad oedd un neu ddau o'r geiriau a gynigiwyd yng Ngeiriadur Gomer, roeddynt yng Ngeiriadur y Brifysgol ac felly fe'u derbyniais. Os bydd pŵs tebyg yn y dyfodol bydd rhaid imi ddweud pa eiriadir mae'n rhaid i'r geiriau i fod ynddo. Hefyd dim ond un ateb sydd eisiau i bob rownd a rhaid nodi y nifer o lythrennau sydd iddo. Gwnaeth un person y camgymeriad anfaddeuol o roi mai ond 7 llythyren oedd CREISION. Os bydd rhai ohonoch eisiau mwy o fanylion am eich sgôr a'r camgymeriadau a wnaethoch, gallwch roi galwad ffôn imi.

Dyma'r atebion a ddewisais i a chael sgôr o 96

1. PWYLLGOR (7) neu llosgwyr, llongwyr, llosgwrn
2. MWYNHAD (7) neu mwynhau, hwyaden
3. $75 \times 6 = 450$ yna $- 7 - 4 = 439$ (10)
4. CREISION (8) neu ceseirio
5. ARBENIGWR (18) 2×9 (holl lythrennau)
6. $100 + 10 = 110$, yna $110 \times 8 = 880$, yna $- 5 = 875$ (10)
7. CARIADUS (8)
8. DIOLCHGAR (8)
9. $50 + 25 = 75$, yna $\times 10 = 750$, yna $- (8 \times 4) = 718$ (10)
10. Y Conwdrwm: GWEINIDOG (10)

Llongyfarchiadau i John Lewis, Meidrim gyda 96 o bwyntiau ac sy'n ennill y wobr gyntaf o £5, gyda Joyce Davies, Hermon un pwynt yn llai yn ennill yr ail wobr sef llyfr. O drwch blewyn roedd Phyllis Hughes, Pwlltrap yn drydydd.

Diolch i'r canlynol am eu hymdrechion gyda'u sgôr, heb fod mewn unrhyw drefn, rhwng 76 ac 87:- Val Owen, Henllan Fallteg; Nesta Rees, Pwlltrap; Tegwen James. Blaenwaun; Peter Crowdie, San Cler; Dorothy Williams, Efailwen; Olwen Gibbon, Heol Llysonnen a Gwlithyn Jones, Dryslwyn.

Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif Mawrth

X	O	X	X	O	O
X	X	O	O	X	O
O	X	O	X	O	X
O	O	X	O	X	X
X	X	O	O	X	O
O	O	X	X	O	X

1	4	3	6	7	5	2	8	9
8	6	7	2	9	1	3	5	4
5	9	2	8	4	3	6	1	7
7	8	5	4	2	6	9	3	1
6	3	1	9	5	7	4	2	8
4	2	9	1	3	8	7	6	5
3	5	4	7	1	2	8	9	6
9	1	8	3	6	4	5	7	2
2	7	6	5	8	9	1	4	3

Dyma ddau bŵs i'ch difyrru y mis hwn

O		O			
O					O
			X		
		X			
	O				O
		O		X	

					8		3
	4	2					
			6		8		1
	3				4		
	9		7	8			
						6	2
3							9
9	5	1				8	
	2		5			7	


Y mae dwy ran i gystadleuaeth y mis hwn.

Dyma'r cyntaf ohonynt

Ceisiwch gwblhau cloc y cwch gwenyn yma.

Mae'n rhaid i bob ateb fynd o gwmpas rhif y cwest-iwn a dilyn cyfeiriad y saeth sydd ar ochr man lle mae'r ateb i fod. Mae'r atebion i rifau 1, 3, 5, yn dilyn dwylo'r cloc (clocwedd), ond mae atebion rhifau 2, 4, 6, yn cael ei rhoi yn groes i symudiad dwylo'r cloc. Mae ateb rhif 1 yn dechrau gyda'r llythyren a ddangosir.


Cymerir ch, dd, ff, ac yn y blaen fel un llythyren.



Dyma'r ciwiau

- | | |
|----------------------|------------------------------|
| 1. Ennill BA neu BD | 7. Sir yng Ngorllewin Lloegr |
| 2. Trin | 8. Amlhau |
| 3. Satan | 9. Ymrwymiad |
| 4. Terfynu | 10. Y bocs adloniant |
| 5. Edrych neu ddeall | 11. Unrhyw ffordd |
| 6. Rhodio | 12. Adar ifanc |

**Yr ail ran o'r gystadleuaeth yw cwblhau
y croesair canlynol**



Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.

Ar Draws

1. Cas beth Merched Beca ! (6)
5. Amheus i'w weld yn ffansi, credwch fi (6)
9. Rhaid meddwi cyn gwneud hyn (5)
10. Canodd Ceiriog am glychau enwog lle hwn (8)
12. Tŷ honno a newidiwyd i fwy nag un (7)
13. Hen raniad o wlad (7)
14. Cysylltiad Gomer, Carreg Gwalch a Ge (5)
16. Y mochyn dig sy'n creu delweddau ffansi inn (9)
18. Heb bwyth amdanom meddai'r Sais (9)
21. A gymeri di ? Ateb a ddisgwylir mewn uniad (5)
22. Drudwy â i'r dyffryn hwn ? (7)
24. Twm o'r Nant efallai! (7)
26. Gall hwn fod yn gyfrifol am arian (8)
27. Siarad i gefnogi (5)
28. Cyn bo hir (2,4)
29. Mae y rhain fel glaswelltyn i ddyn

I Lawr

2. Trwy wneud hyn gall y bois hwyrach gael gwybodaeth (5)
3. Dyma'r lle i gael anrhydedd (9)
4. Cyson neu lyfn all roi lle fel hyn inn. (7)
5. Troi'r cae brych am ardal yn Sir Gâr (7)
6. Cael defnydd heb ddechrau asid a diwedd tun (5)
7. Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda yw rhai y tymor (9)
8. Man cychwyn dysgu i'r ifanc (5,6)
11. Rhaid ymgyrchu at y copa yw'r dywediad (1, 5, 2'1, 3)
15. Cynan a anfarwolodd y creigiau hyn (9)
17. Sefydliad nodiadol i gantorion Ceredigion (5, 4)
19. Mae'r ŵyn yn troi'n ddu i gael ffrwyth yr Hydre. (7)
20. Mae pawb wedi cyrraedd, felly nid oes hyn (3, 1, 3)
23. Ennill gwybodaeth a ddisgwylir yn 3, 8 a 17 (5)
25. Pedwerydd llythyren y Groegwr (5)

Cynigir gwobr o £5 i'r cyntaf, a ddaw allan o'r het a llyfr i'r ail.

Anfonwch eich atebion yn llawn gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Gorffennaf 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill un o'r gwobrau. Cofiwch hefyd y dylech wneud yn siwr eich bod yn ymaelodi cyn gynted â phosibl os am y siawns o ennill un o'r gwobrau.

Y Gwanwyn

Y cyfan yn bur, ac yn newydd sbon.

Daear yn ysu am ei thyfiant bron.

Adar yn nythu, afon yn byrlymu.

Dim blinder ar y ddeilen lon,

A'r haul yn gwenu ar y deffro llon.

Janet Harries

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Mae mis arall wedi mynd heibio a braf yw gweld bod y Gwanwyn wedi'n cyrraedd. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

Braf yw gweld bod nifer ohonoch wedi ymaelodi â'r Clwb oddi ar y rhifyn diwethaf. Hyfryd yw gweld rhestr yr aelodau'n cynyddu!

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

June Walters, 15 Parc Starling, Tre Ioan
Elgar a Rose Saer, 10 Stryd y Parc, Hendygywyn
Elwyn Parry, 50 Heol Barri, Energlyn, Caerffili.
Norah Heseltine, Spencer House, Llanboidy
Hannah, Daniel a Kerry Reynolds, Santa View, San Clêr
Siôn, Ryan ac Ellie Thomas, 7 Clos Griffith Jones, San Clêr
Margaret Rees, 1 Rhyd y Gors, San Clêr
Mari Rees, 9 Heol Innes, Felinfoel, Llanelli
Einir Rees, 15 Heol Spurrell, Caerfyrddin
Ray a Geraint Griffiths, 16 Hafod Cwnin, Caerfyrddin
Mali a Nel Kay, 29 Llwynygrant Road, Penylan, Caerdydd
Gwilym Lawrence, 41 Bevelin Hall, Saundersfoot
Robert a Lisa Davies, 24 Lôn Hafren, San Clêr
Dyfrig Phillips, 94 St. Lawrence Park, Cas-gwent
Ceirios Jenner, Gwêl y Meini, Efailwen
Anthony Jenner, Gwêl y Meini, Efailwen
Buddug Nelson, Lusaka, Sambia.
PJD a NW Jones, Ar y Banc, Heol Abergwili, Caerfyrddin
RW Williams, Bryn Eithin, Bryn Iwan.
Russell ac Ann Thomas, 8 Bro Derwen, Clunderwen
EM Davies, Y Tŷ Coets, Llanbedr Pont Steffan
Keith a Mair Davies, Brynderi, Glandwr

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Ebrill:-

£20: 382 - Dai Baker, London House, Meidrim
£10: 313 - John Evans, Cilhengroes, Henllan Amgoed

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth er mwyn sicrhau dyfodol ein papur bro.

Cadwch yn ddiogel,

Rhian



Spaghetti Bolognaise

Cynhwysion:-

- 1 ½ owns o fargarin
- 1 ewin garlleg
- 2 winwnsin wedi eu torri
- 1 ½ pwys o gig eidion wedi ei falu
- 1 pwys o domatos aeddfed
- ½ peint o ddŵr neu stoc

Tomato wedi ei sleisio

1 llwy de o saws 'Worcester'

Halen a phupur

¾ pwys o spaghetti

4 owns o gaws wedi ei ratio

1 owns o fenyn.

DULL

Coginiwch y garlleg (wedi ei dorri'n fân) a'r winwnsin yn y margarin wedi ei doddi.

Ychwanegwch y cig eidion.

Yna, y tomatos wedi eu pilio a'u torri'n ddarnau, yna'r dŵr neu stoc, saws, halen a phupur.

Rhowch y caead ar y sosban a choginiwch yn araf am tua 1 ½ awr nes fod y cig yn frau.

Mewn sosban arall, berwch y spaghetti mewn dŵr a halen nes eu bod yn dyner.

Ychwanegwch at y gymysgedd yn y sosban gyntaf.

Trowch y cyfan i ddysgl wedi ei huro.

Rhowch y sleis tomato a'r caws ar y top gyda darnau o'r menyng.

Gadewch i'r cyfan frownio o dan y grill, neu yn y ffwrn.

Cyfraniad

Delyth Dent, Maencoch

£5

Diolch yn fawr

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES

Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED

a

THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319

CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Hoffem ddiolch i Rhoswen am ei chyfraniad mawr yn golygu'r Cardi Bach am 40 mlynedd. Mae hi a'i gŵr Roy wedi bod yn ddylanwad mawr i mi ac eraill fel dysgwyr. Rwy'n dal i gofio plygu'r papur pob mis - roeddent yn nosweithiau arbennig.

Pob iechyd i chi Rhoswen a Roy.

Pwyntiau i'w cofio

Mae'r adroddiad canlynol yn achosi treigladau meddal:

i	o	am
Ar	at	dan
Hyd	wrth	heb
Trwy	dros	gan

e.e. Diolch am bopeth

ond - rhwng dau feddwl (dim treigladau ar ôl 'rhwng').

Llenwch y bylchau gydag arddodiad, gan dreiglo lle bo angen

1. Ysgrifennais ichi ddoe.
2. Rhaidfe dalu cynfe fynd i mewn.
3. Dwedodd hipawb ei bod hi'n chwarae.
4. Does neb a diddordebnhw.
5. Maeti arian i fi.
6. Oes annwydchi?
7. Mae Guinness yn ddati.
8. Dw i'n myndy deintydd y p'nawn 'ma.
9. Faintchi sy'n mynd i'r gig heno?
10. Mae'r gwesty yn wag, does neb wedi arosfe ers wythnosau.
11. Mae'r heddlu wedi bod yn chwilioi ers dwy flynedd.
12. Edrychwchnhw, maen nhw'n gwisgo dillad mmerched!
13. Cofiwch roi amserhi feddwl am ateb.
14. Wnei di ffonio'r bos?

ARWYDDION A DYLUO

BOOMERANG

SIGN & DESIGN

01239 832 014

sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO



CBS
CRYMYCH

ADNODDAU ADEILADU

Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ

Ffôn: 01239 831444



**COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig**

Hendyggwyn

01994 240254

www.llewelyndavies.co.uk



**Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf**



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

01437 563725 • 07798 885305

**CWMNI PEIRIANEG
HENDYGGWYN AR DAF CYF.**
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendyggwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



MERCHED Y WAWR

Cangen San Clêr

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar nos Fawrth, Ebrill 19eg yn Yr Hen Ysgol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, Eileen. Roedd 18 yn bresennol.

Ethol swyddogion

Etholwyd swyddogion am y tymor nesaf fel â ganlyn:

Llywydd – Annalyn Davies

Is-lywydd – i'w phenodi yn y cyfarfod nesaf

Ysgrifennydd rhaglen – Rhian Williams

Ysgrifennydd materion Rhanbarth a Chenedlaethol – Iona Morgan

Ysgrifennydd cofnodion a gohebydd y Wasg – Beti-Wyn James

Trysorydd – Lilwen Thomas

Is-drysorydd – Margaret Rees

Dosbarthydd y Wawr – Eileen Davies

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd Cyfarfod Cyffredinol.

Llywyddwyd gan Annalyn.

Dywedodd Beti-Wyn air i gofio am Daphne a fu'n aelod gweithgar a chadarn o'r gangen, yn Lywydd ar fwy nag un adeg ac yn ffyddlon i weithgareddau Rhanbarthol a Chenedlaethol y Mudiad. Bu, hefyd, yn hael ei chroeso i'r Clwb Darllen. Cafwyd munud o dawelwch er cof am Daphne.

Penderfynwyd rhoi £100 tuag at Bwyllgor Apêl San Clêr o Eisteddfod yr Urdd 2023.

Soniwyd am y Pwyllgor Rhanbarth a noson gystadlaethau Radi Thomas. Llongyfarchiadau i Lilwen am ddod yn fuddugol ar y trefnu blodau. Fe wnaeth Iona gystadlu, hefyd, ar y celf. Doedd dim buddugwyr o San Clêr yn y Raffl Rhanbarth.

Dros baned a chacen cafwyd amser difyr yn ceisio "Nabod y babi" o luniau'r aelodau. Tasg anodd! Diolch i Iona am drefnu'r gystadleuaeth.

Rhoddwyd y wobwr raffl gan Sally ac fe'i henillwyd gan Margaret B.

Diolch i Sue a Phillip o Yr Hen Ysgol am eu croeso unwaith eto.

Cangen Beca

Catherine Griffiths oedd ein gwestai ym mis Ebrill. Estynwyd croeso iddi gan Eryl George.

Er mai nyrs yn ysbyty Glangwili yw Catherine, mae yn hoff iawn o wneud 'fascinators' yn ei hamser sbar. Gwnaethom fwynhau clywed a gweld sut mae'n mynd ati i greu y 'fascinators' prydferth i'w gwisgo ar bob achlysur.

Cafwyd hwyl wedyn wrth i ni wisgo engreifftiau o'i gwaith.



Ann a Eryl yn edrych yn smart iawn

Diolchodd Eryl i Catherine am ein diddori wrth iddi ddangos i ni ei gallu i greu pethe mor bert.

Mwynhawyd cwpaned a chacen tra yn trafod materion y gangen a'r mudiad.

Braf oedd gweld Edith wedi medru dod i'r cyfarfod yng nghwmni ei merch Nia. Sadie wnaeth ennill y raffl misol.

Cangen Hendygwyn ar Daf

Janet Knott o gangen Glannau Pibwr oedd ein gwraig wadd yn ein cyfarfod yng Nghanolfan Hywel Dda ar Ebrill 19eg. Bu Janet yn nyrs yn y gymuned am flynyddoedd lawer cyn iddi fynd yn diwtor.

Roedd gwrandao ar ei phrofiadau yn ddiddorol tu hwnt, yn enwedig pan soniodd am yr amser pan ddaeth i Hendygwyn am gyfnod pan oedd ein nyrs ni, sef Nan, yn dost. Gwnaeth i ni sylweddoli cymaint mae gofal yn y gymuned wedi newid ers y chwedegau.

Mae wedi bod yn brysur dros y blynyddoedd yn casglu creiriau meddygol ac fe ddaeth a'i chasgliad i ddangos i ni.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i GWMNI

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Daeth atgofion o'n plentyndod nol i amryw ohonom pan welon ni boteli a Syrup of Figs, Milk of Magnesia, Cod liver oil ac yn y blaen! Cawsom drafodaeth ddiddorol yn cymharu meddyginiaethau'r gorffennol cyn mwynhau disgled o de a darn o gacen.

Diolchodd Margarette yn gynnes iawn iddi am brynhawn hyfryd ac i Elinor a Cerrys am y te. Buon ni'n trafod ble i fynd am drip fis nesa. Penderfynwyd mynd i Dy Llan-nerchaeron ar Fai 12fed. Fe ganon ni gan y Mudiad cyn ffarwelio.



AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

MASNACHWYR ADEILADU

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Pam mai'r afr yw emblem Cymru?

Ai am fod yr afr yn drewi rhyw damed y mae gan gynifer o bobol cyn lleied o barch ati? Eto'i gyd, er yr holl ddiffrïo, mae ganddi lawer o ffrindiau dylanwadol. Yn wir, mae Cymdeithas Gafrod Prydain yn ffynnu, a'r Frenhines yw ei noddwr.

Mae'r cysylltiad sydd gan yr afr â Chymru yn enwog, a'r afr yw masgot y Gatradd Frenhinol Gymreig a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Enw gafr y Gatradd Frenhinol yw Dewi neu Siân bob amser, yn dibynnu ar y rhyw, ac enw un y Ffiwsilwyr Brenhinol yw Billy bob amser gan fod yn well gan y gatradd honno gael gafr gwryw. Mae'r 'Goat Major' yn gofalu am y ddwy afr, ac mae gan afr y Gatradd gôt ar ei chefn, ond nid felly gafr y Ffiwsilwyr.

Does neb yn siŵr iawn pam na phryd cafodd yr afr ei mabwysiadu gan filwyr Cymreig fel eu masgot. Yn ôl un stori, pan oedd y 41st Foot - y Gatradd Gymreig - ar lwyg yn y Crimea yn 1855, daliwyd gafr a'r bwriad oedd ei bwyta, ond bu i'r milwyr serchu cymaint yn yr anifail fel na allent wynebu ei lladd yn y diwedd. Fodd bynnag, mae cysylltiad yr afr â'r Ffiwsilwyr yn mynd nôl tipyn pellach, ac roedd gafr gan y milwyr hynny yn Rhyfel Anibyniaeth America yn 1775.

Yr Afr



Fe welir masgot cartrodol Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru ynghyd ag Uwchgaptan yr afr. Maent yn ymddangos yn rheolaidd ar unrhyw achlysur pan fo'r gatradd yn cymeryd rhan yn gyhoeddus.

Mae'r afr wedi ei hadurno yn ei regalia seremonïol pan fydd ar parêd, yn ei gwisg lliwgar, y plat pen a'r cyrn wedi ei euro.

Yn swyddogol mae'n cael ei henwi yn rhestr

milwyr y bataliwn fel Gwilym Jenkins gyda'i lysenw "Taffy".

Ar ôl trafferth mawr iawn i'w dal ar lethrau Pen y Gogarth (Great Orme), Llandudno, enw y masgot presennol yw Siencyn y IV.
(A.E. a J.A.J)

Dathliadau Ysgol Bancyfelin



Plant yr ysgol yn rhoi cyflwyniad o hanes yr ysgol ar ddechrau'r dathlu

Mae Bancyfelin a'r ardal wedi chwarae rhan bwysig yn addysgu pobl ifanc Cymru ers canrifoedd. Trwy haelioni Madam Bridget Bevan, Cwrt Derllys, Bancyfelin, bu'r ysgolion elusenol a'r ysgolion cylchynol Cymraeg yn dysgu rhwng traean a hanner o boblogaeth Cymru i ddarllen yn ystod y 18fed ganrif. Fodd bynnag, nid tan 1872 y bu adeilad ysgol parhaol ym Mancyfelin. Felly eleni mae'r ysgol yn dathlu ei phenblwydd yn 150 mlwydd oed ac roedd Dydd Sadwrn, Ebrill 30ain yn gyfle i groesawu cyn-ddisgyblion, cyn-aelodau o staff a'r gymuned gyfan i'r ysgol.

Bu paratoi am wythnosau gan aelodau o staff a rhieni er mwyn sicrhau croeso brwd ar y diwrnod mawr. Cynhaliwyd diwrnod agored yn yr ysgol lle roedd arddangosfeydd o hen luniau ac roedd yn gyfle i'r cyn-ddisgyblion rannu atgofion.

Bu disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan gan adrodd hanes yr ysgol, llefaru darn am yr ysgol, dawnys stepio a chanu cân y dathlu. Gwnaed cacen y dathlu gan Mrs Rhian Bowen, ac fe dorrodd y gacen gan Mrs Ida Evans, Llysonnen, cyn-ddisgybl hynaf yr ysgol, Millie Morris, disgybl ieuengaf yr ysgol a Maldwyn Roberts yn cynrychioli'r bechgyn a fu yn yr ysgol.

Ar ôl torri'r gacen, dad-orchuddiwyd llun a wnaed gan ddisgyblion presennol yr ysgol ynghyd â Ms

Louise Jones gan Mrs Carwen Earles, Cadeirydd Llywodraethwyr Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan.

Fel clo ar y diwrnod, cynhaliwyd noson gymdeithasol yn y Neuadd dan ofal y gymdeithas rhieni gyda Ms Phoebe Morgan yn canu - noson i'w chofio ble cafodd pawb gyfle i rannu atgofion a chymdeithasu. Cynhaliwyd Ocsiwn llwyddiannus dan ofal medrus Mr Colin Evans.

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y diwrnod - y staff a'r rhieni a weithiodd mor galed wrth baratoi ac yn ystod y dydd, y cwmnïau lleol a noddodd y diwrnod ac a gyfrannodd nwyddau, yr unigolion a gyfrannodd nwyddau ar gyfer yr ocsiwn neu roddodd gyfraniadau, a phawb yng nghymuned Bancyfelin a gefnogodd ddiwrnod arbennig a fydd yn aros yng nghof pawb yn yr ardal.

Yng ngeiriau cân y dathlu:-

Dewch i ddathlu gyda ni,
A chael hwyl a sbort a sbri,
Ac i rannu eich atgofion
Am ein hysgol annwyl ni.

Wrth i'n rannu ein hatgofion,
A chael cwmni hen gyfeillion,
Drychwn mlaen am gant a hanner,
Blwyddyn arall gyda hyder



Mrs Carwen Earles, Cadeiryddes Llywodraethwyr Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llangain a Llansteffan ynghyd a Ms Louise Jones yn dad-orchuddio murlun y dathlu a gynlluniwyd ac a grewyd gan ddisgyblion Ysgol Bancyfelin, a Louise.




Rhaid o'r dyrfa ddaeth ynghyd i'r dathlu ar fore braf o Wanwyn



Pheobe Morgan yn diddanu yn neuadd Bancyfelin mewn noson gymdeithasol i gloi'r dathliadau



Cacen y dathlu o waith Mrs Rhian Bowen



Os hoffech gopi o'r llyfr uchod, cysylltwch â Mrs Trefina Jones, Pennaeth yr ysgol.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

 **Atgyweirio a M.O.T.**

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPs FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŨR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÂN HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

 **FFÔN:-**
01994 240857 

MEIDRIM

Ar Fai 3ydd daeth 22 o aelodau ynghyd i wrando ar ein siaradwyr gwadd sef Glyn a Jan Harbour. Clawsom am wlad Groeg ganddynt. Cyn dod i Meidrim bu'r ddau yn byw yng Ngroeg am ugain mlynedd. Drwy gyfrwng lluniau cawsom weld y wlad brydferth oedd o amgylch eu cartref. Yno roeddynt yn tyfu nifer o gwahanol fathau o goed, frwythau a llysiau. Gwelsom hefyd rhai dathliadau Groegaidd. Diolchwyd iddynt gan Glyn James.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fehefin 7fed yn Neuadd Ieuentid Meidrim, pan fydd Annalyn Davies yn siarad â ni.

Wrth y te - Gwynfor Price, Glen Lewis, Lyn Herbert, Lawrence Thomas. Yn rhoi raffl - Jean Howell, Meirion Morris, Eirwen Davies a Lynda Newton.

BLAENWAUN

Moriah

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 1af o Fai. Thema yr oedfa oedd gweddïo. Wedi darllen Salm 63 a darn o'r bregeth ar y mynydd, trafododd beth yw gweddï, sut i weddïo ac am beth y dylem weddïo. Amlinellodd saith agwedd ar weddï - nesâd at Dduw, moliant adnabod, mawredd Duw, cyffes, diolch, ymbil ac ymgysgriad. Cyfoethogwyd yr oedfa gan eitemau cerddorol ar ddisg - 'Sanctws', 'Gweddï Eli Jenkins' gan Gôr Gorau Glas a Dafydd Iwan 'Ni fethodd gweddï daer'.

Trefn yr oedfaon.

Mai 15fed: 2yp Cymun Nigel Davies.

Mehefin 5ed: Cymun 10.30yb. Parchedig Gareth Ioan

Mehefin 26ain: 2 o'r gloch Cyrddau Pregethu - Parchedig Dorian Samson.

Croeso cynnes i bawb.

Blaenwaun

Llongyfarchiadau i Ceris Horscroft, Gorlan ar ei llwyddiant i fod yn nyrs deintyddol trwyddedig.hefyd llongyfarchiadau i Llŷr Phillips, Gorlan ar ei ddychafiad gyda'r Bwrdd Dŵr i symud ymlaen i fod yn Dechnegydd Cynnydd. Pob lwc i'r ddau yn eu gyrfaoedd.

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Euros Jones Evans a Mr Lyndon Lloyd am eu gwasanaeth dros yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Oedfa Fedydd a Cymun Sul y Pasg

Roedd yn ddydd o lawen chwedl i ni yng Nghalfaria ar fore Sul y Pasg, wrth i'r Parchedig Euros Jones Evans, un o blant yr eglwys hon, weinyddu'r ordinhad o fedydd. Bedyddiodd ef Alison Thomas, ynghyd a tri o'i wyrion sef Ffion Eleri, Lowri Elan a Ioan Morgan Anderson. Digwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn wrth i Alison gael ei bedyddio - glaniodd pluen wen ar y dwr! Pob bendith arnynt i gyd.

Gwnaeth tad Euros, y diweddar Barchedig T Jones Evans fedyddio 81 o bobol ifanc yn ystod y cyfnod bu'n gweini-dogaethu yma rhwng 1943 - 1957. Soniodd Euros am nifer o gyd ddigwyddiade hyfryd arall hefyd, roedd Sul y Pasg yn ddiwrnod penblwydd ei diweddar fam ac yn union 65 mlynedd i'r diwrnod ers i'w rieni ymadael a Login. Ar Sul y Pasg, yn ol yr hen arferiad, cynhaliwyd oedfaon bedydd flynyddoedd maith yn ol.

Diolch o galon i Euros am arwain oedfa fedydd a chymun bendithiol iawn, fel dwedes wrth Ffion, Lowri a Ioan ar ddiwedd yr oedfa - "ma'ch tadcu yn seren".



Y Parchedig Euros Jones Evans yng nghwmni'r pedwar bedyddiwyd ganddo sef Ioan Morgan Anderson, Ffion Eleri Anderson, Lowri Elan Anderson ac Alison Thomas.

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007



cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
 Mai 29ain: Aled Gwyn - Oedfa Goffa Parchedig
 Vincent Evans - 10.30 o'r gloch
 Mehefin 12fed: Judith Morris - Cymun 10.30 o'r gloch
 26ain: Annalyn Davies - 2 o'r gloch
 Gorffennaf 10fed: Geoffrey Eynon - Cymun 2 o'r gloch
 24ain: Eirian Wyn - 10.30 o'r gloch

Gwellhad

Dymunwn adferiad buan i Ann Thomas, Bro Derwen, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau hefyd i Beti James, Coedllys sy'n anhwylys ar hyn o bryd.

Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus hwyr i Eiriannydd (Nin) Lewis, Bro Derwen oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 95 oed ar Mai 3ydd. Hefyd yr un cyfarchion i'n cyn weinidog, y Parchedig Tecwyn Ifan oedd yn 70 oed ar Mai 1af ac hefyd i Dafydd Wright oedd yn 30 oed ar Mai 1leg.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Sioned Thomas, Mae-syllan, Login ar ennill gradd sylfaenol mewn amaethyddiaeth yng Ngholeg Gelli Aur a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Llongyfarchiadau hefyd iddi ar ei swydd fel rheolwr o dan hyfforddiant yn C.C.F. Crymych. Pob lwc i'r dyfodol.

Yn y llun, Sioned ar y dde gyda'i ffrind Dani Harley.

CWM MILES

Capel

Trefn yr oedfaon.

Mai 22ain. Cymun - Elonwy Phillips

Mehefin 19eg. Cymun Parch Euros Jones Evans.

Croeso cynnes i bawb.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Cynhaliwyd Helfa Drysor ar Sul, 1af o Fai. Dechreuwyd yng Nghanolfan Ffynnonwen a gorffennwyd yn y 'Roadhouse' Hendygywn ar daf. Cafwyd tipyn o sbort a sbri gyda deuddeg car yn cystadlu. Codwyd swm o £140 Diolch i bawb wnaeth gystadlu a diolch i Dylan Williams am drefnu'r daith.

Ti a Fi Ffynnonwen

Cymdeithasu

I blant 0-5 oed

Chwarae

Dydd Llun 1y.p.-2.30y.p.

Canu

£2.50 y teulu /

£1 am blant ychwanegol

Celf a Chrefft

Dewch am ddished a sgwrs

am fwy o wybodaeth ffoniwch:

Liz ar 07796 413308

neu edrychwch ar wefan

Dysgu Cymraeg

a Mwynhau



Taith Tractorau Ffynnonwen



Croeso i bob math o gerbydau

Dydd Sadwrn, Medi 18fed

Dechrau am 10y.b. yng
 Nghylch Meithrin Ffynnonwen

Raffl a bwyd ar ôl dychwelyd

**Codi arian tuag at gegin
 newydd i'r Cylch**

Rhys Jones
Glanhauw Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
 Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
 Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
 Gosod larymau Carbon Monocsid
 Gwasanaethu/atgyweirio stôfiau a lleoedd tân
 Yswiriant a chymhwysiaid llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
 GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
 Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
 AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
 presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
 Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
 Clunderwen. SA66 7NP

BANCYFELIN



Daeth cynullleidfâ dda ynghyd ar gyfer dathliad Pasg ym mhentref Bancyfelin. Wedi cerdded drwy'r pentref gan oedi bob hyn a hyn i ganu emynau, cynhaliwyd oedfa yn y capel a phaned a byns y grôg i ddilyn. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Priodas Dda



Llongyfarchadau mawr i Angharad Richards a Tomos Jameson a briodwyd yng Nghapel Bancyfelin ar 9fed o Ebrill. Mae Angharad yn ferch i Paul a Joanne Richards, Delfryn, Bancyfelin a Tomos yn fab i Ian ac Elinor Jameson, Cil y Barcud, Meidrim. Cynhaliwyd y brecwast priodas yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert.

Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd, Cilhir Isaf, Meidrim.

Capel Bancyfelin



Mwynhaodd aelodau Capel Bancyfelin noson hyfryd o gymdeithasu dros bryd o fwyd ardderchog yn nhafarn Y Fox & Hounds yn ystod mis Mai. Hyfryd oedd cael cyfle i ddod ynghyd yn gymdeithasol unwaith eto wedi'r cyfnod clo.

Plannu Blodau Haul



Mae plant Ysgolion Sul Cana a Bancyfelin a'r Priordy, Caerfyrddin ynghyd â holl ddisgyblion Ysgol Bancyfelin yn cymeryd rhan yn ymgyrch Y Parchg Beti Wyn i dyfu cymaint o flodau haul â phosib fel arwydd o gefnogaeth i Wcraïn. Dosbarthwyd rhai cannoedd o hadau ganddi. Beth am i chi ymuno yn yr ymgyrch hefyd?

Gibeon

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar fore Sul y Pasg. Trefnwyd yr oedfa gan Marian a chymerwyd rhan gan yr aelodau ynghyd â phlant yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd dramodig byr gan y plant, Elan, Llion a Gwennan, hefyd, fe fuon nhw'n canu "Haleliwia, haleliwia". Cyflwynwyd darlenniadau a gweddïau gan Iona, Beti-Wyn, Wendy, Ann Jones, Margaret, Ann Richards, Catrin, Hefina, Liz, Anwen, Meirion ac Annalyn. Gweinyddwyd y Cymun gan y gweiniog, y Parch Rhodri Glyn Thomas a chyfeiliwyd drwy y

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

Paentiwr ac
Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 **Monraker** 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
 
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

gwasanaeth gan Hilary. Cafwyd oedfa fendithiol iawn a braf oedd cael cynulleidfa luosog o eglwys i'r ofalaeth ar y bore arbennig hwn. Yn dilyn yr oedfa cafodd y plant helpa drysor Wyau'r Pasg. Diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn cymryd rhan.

Diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli a chyfrannu dil-lad at Apêl Coda Ni. Hefyd, diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli i fynd â bwyd o'r Coop i Loches Gwragedd Caerfyrddin yn ystod mis Mai.

Cynhaliwyd oedfa undebol yn lle'r Gymanfa Bwnc ar brynawn Sul, Mai 8fed. Llywyddwyd gan y gweinidog, y Parch Rhodri Glyn Thomas, a chyfeiliwyd gan Hilary Evans. Thema'r oedfa oedd "Dwylo" a chafwyd darl-leniadau Beiblaidd gan blant a ieuencid Ysgolion Sul Ffynnonbedr a Chana, yna gweddi gan blant Ysgol Sul Gibeon. Cafwyd anerchiad ar y thema gan Beti-Wyn (Gibeon) gyda'r plant yn defnyddio'u dwylo i hau hedyn blodyn haul yr un cyn diwedd yr oedfa. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Beti-Wyn James. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan ac a fu'n cynorthwyo i drefnu'r oedfa. Braf oedd cael dod at ein gilydd fel tair eglwys unwaith eto a chael bod yn rhan o gynulleidfa dda mewn oedfa fendithiol.



Plant Ysgolion Sul Gibeon, Cana a Ffynnonbedr a fu'n cymryd rhan mewn oedfa undebol yng Ngibeon ar Fai 8fed.

Dyma drefn oedfaon mis Mehefin:

5ed: Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd dan ofal y gweinidog am 10y.b.
12fed: Oedfa ym Methlehem Newydd dan ofal Mr. Alun Lenny 10y.b. Ysgol Sul – Gibeon 10.30 y.b.

19eg: Oedfa Gymun yng Ngibeon dan ofal y gweinidog 10.30y.b.

26ain: Ysgol Sul – Gibeon 10.30 y.b.

SAN CLÊR

Trist oedd clywed am farwolaeth Gwennie Jenkins o Heol y Bont, yn 89 oed. Cydymdeimlwn â'i merch, Eileen Weston a'r wyrion a'u teuluoedd yn eu colled.

Cofiw'n yn arbennig, hefyd, am Eric Davies, Tynewydd, ar farwolaeth ei wraig, Kathleen, yn 89 oed, yng nghartref gofal Peniel House. Hefyd, ar yr un adeg bu i Eric golli ei chwaer, Enid Lewis o Langynin. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu galar.

Ar Ebrill 27ain bu farw Blodwen Nicholas, gynt o Cae Grug, San Cler, gweddw y diweddar Dilwyn. Cydymdeimlwn a'i merch a'i mab-yng-nghyfraith, Allyson a Delme a'r wyrion a gor-wyrion.

Hefyd, bu farw Sheila Evans, Gerddi Wembley. Bydd llawer yn ei chofio yn rhedeg y siop bapurau Kingswood Stores am flynyddoedd, gyda'i diweddar w'r Ron. Cydymdeimlwn â'i merched, Sandra a Shirley a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Dafydd a Nest Williams, Pentalar. Bu farw brawd Dafydd yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar.

Dymunir yn dda i Kyle Kennedy a Kayleigh Bowen ar eu priodas yn Eglwys Meidrim ym mis Ebrill.

Llongyfarchiadau i Cathryn a Chris ar enedigaeth eu mab, Ioan George David Thomas, brawd bach i Telyn Hâf. Llongyfarchiadau, hefyd, i dadcu a mamgu, sef Bob a Heulwen Elward, Tadil.

PWYLLGOR APÊL SAN CLER

Pwyllgor Apêl Sanclêr, Bancyfelin,
Pwll-Trap a Llangynin
ar gyfer Eisteddfod Sir Gâr 2023

Cynhelir Te Prynhawn a Sioe Ffasiynau
Pethau Olyv yn Neuadd Bancyfelin
am 2 y.p ar Fehefin y 25ain.

Tocynnau £10 ar werth yn Pethau Olyv
a Llawn Cariad, Sanclêr
neu

cysylltwch â Iola Wyn ar lolawyn@hotmail.com

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymlych

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Ian a Sonia Thomas a'r teulu, Oak Crest ar farwolaeth mam Ian, sef Delia Thomas o Feidrim.

Llongyfarchiadau i Dion a Ffion Gibby ar eu priodas ym Methlehem Newydd ar Ebrill 16eg. Mae Ffion yn ferch i Gary ac Eleri Jones, Clos Nathaniel.

...hefyd i John a Delyth Evans, Crud y Wawr ar enedigaeth wyres, Nola Enid, merch fach i Dafydd a Kelly yng Nghaerfyrddin. Llongyfarchiadau i Owain, hefyd, ar ddod yn wncwl a braf yw deall ei fod adref o Awstralia am fis o wyliau. Croeso nôl.

...hefyd, i Richard a Lynda Holdcroft, Frondeg, Heol Bethlehem, ar enedigaeth bachgen bach, Sydney Blue, ar Ebrill 30ain, wŷr i John ac Eiryth Holdcroft, Ger-y-gors ac i Clive a Lynette Pickersgill, gor-wŷr i Mary Williams, Llwynteg a Marion Holdcroft, Llanboidy.

Dymuniadau gorau i Rhys Phillips, Garreglwyd ar ei ymddeoliad.

Bethlehem Newydd

Llongyfarchiadau i Arthur a Mair Collinge a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt ym mis Ebrill.

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Ebrill 3ydd. Cymerwyd rhan gan aelodau'r ofalaeth a seliwyd yr oedfa ar wasanaeth Dydd Gweddî'r Byd eleni. Gweinyddwyd y Cymun gan y Gweinidog a Dai Rees oedd yn gwasanaethu ar yr organ. Diolch i Marian am drefnu'r oedfa.

Bu Mr Lyndon Lloyd yn gwasanaethu ar Ebrill 10fed a chafwyd oedfa Gymun dan ofal y gweinidog, y Parch Rhodri Glyn Thomas, ar Fai 1af.

Trefn Suliau mis Mehefin:

5ed: Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog 10 y.b.

12fed: Oedfa dan ofal Mr. Alun Lenny 10 y.b.

19eg: Oedfa Gymun yng Ngibeon dan ofal y gweinidog 10.30 y.b.

Tŷ Croeso

Braf oedd clywed Annalyn yn siarad mor huawdl ar Bwrw Golwg gyda John Roberts ar Sul y Pasg. Bu casgliad tuag at Apêl Coda Ni yn ystod mis Mai.

Diolch i bawb a gyfrannodd dillad ayyb at yr apêl a diolch i bawb a fu'n gwirfoddoli ar foreau Sadwrn i dderbyn y rhoddion. Dyma rai o'r gwirfoddolwyr fu'n helpu ar Fai 7fed.



Mae Annalyn wedi trefnu gyda Co-op, San Cler, yng nghynllun Foodshare, bod bwydydd sydd heb eu gwerthu yn cael eu rhoi at Loches Gwragedd Caerfyrddin. Diolch i'r Coop am eu haelioni ac i'r gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn mynd a'r bwydydd i'r Lloches ar Ddydd Llun neu Ddydd Iau.



Dyma lun o Annalyn yn derbyn y bagiau cyntaf o fwyd oddi wrth Nikki McKenzie- James, Rheolwraig y Co-op.

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHION CYF

Ymgynghorwyr Cynllunio
a Phensarnïol

15 STRYD ST IOAN, HENDYGYWN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Charlotte Major - Dawnswraig o fri



Charlotte gyda'i nith Amelia

Mae Charlotte Major yn byw gyda'i rhieni, Keith ac Ann, a'i chwaer, Louise yn nhafarn y Llew Gwyn, Pwll-trap. Cafodd ei had-dysg yn Ysgol Dyffryn Taf, ac mae bellach yn gynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Gynradd Talcharn. Ei diddordeb yw dawnsio.

Dyma ei stori yn ei geiriau ei hun

Fy enw yw Charlotte Major, ac rydw i yn dawnsio Neuadd (Ballroom dancing) a dawnsio Lladin. Rydw i wedi bod yn dawnsio ers 5 mlynedd ac wedi mwynhau pob munud. Rydw i wrth fy modd yn dawnsio ac yn ei gael yn sialens ac yn gymhelliant. Ymunais gyda teulu "Ultimate Ballroom" fel dawnsiwr cymdeithasol unigol, ac ers y wers gyntaf roeddwn wrth fy modd, a dwi heb edrych yn ôl. Roeddwn yn dawnsio o gwmpas y ty a'r gwaith a phryd bynnag roeddwn yn dawnsio byddai gwên anferth o hapusrwydd ar fy gwyneb.

Gyda'r brwdfrydedd a'r annogaeth oddi wrth fy athrawes dawns ffantastig, Pam Hopkins, cyn bo hir roeddwn yn tyfu mewn hyder ac mewn sgiliau. Mae dawnsio wedi creu cyfle gwych i gadw'n ffit, datblygu sgiliau newydd, cyfarfod pobl hyfryd a gwneud ffrindiau newydd.

Gydag amser, penderfynais ddatblgu fy sgiliau "Ultimate Ballroom" ymhellach a phenderfynais sefyll arholiadau. Penderfynais hefyd i herio fy hun gyda phrofiadau newydd, ac yn awr rwy'n cymryd rhan

mewn cystadlaethau Dawnsio Neuadd a Dawnsio Lladin. Ynghyd â'm cyd-gystadleuwyr, rwy'n mynd i'r Winter Gardens yn Blackpool unwaith y flwyddyn i gystadlu yn erbyn nifer o ddawnsiwr talentog a llwyddiannus o bob rhan o'r DU. Roedd yn brofiad rhyfeddol a gwfreiddiol, yn cael fy nghwmpasu gan geinder, talent rhyfeddol a hanes cyfoethog sgiliau arbennig. Rydw i wedi gorffen fy arholiadau diweddaraf ar lefel Aur, ac wedi llwyddo i gael Anrhydedd ym mhob un o'm arholiadau Neuadd a Lladin. Yn ddiweddar, roeddwn yn rhan o noson wobrwyo er mwyn derbyn fy medalau.

Rydw i bellach yn ymarfer yn galed ac yn frwdfrydig er mwyn dysgu'r lefel nesaf gan sefyll fy arholiad Seren Aur. Mae fy nith 9 mlwydd oed wedi dwyn fy mbrwdfrydedd ac mae hithau hefyd yn dysgu dawnsio Neuadd a Lladin. Mae wedi bod yn dysgu ers sawl blwyddyn, ac mae hithau hefyd yn cymryd rhan mewn arholiadau a chystadlaethau. Cafodd lwyddiant arbennig yn Blackpool y llynedd gan ddod adref a dau dlws enillydd. Yn ogystal a'm nith, rydw i hefyd yn ceisio cefnogi pobl eraill sydd eisiau dysgu'r sgil anhygoel hwn, ac yn cynorthwyo fy athrawes ddawns i ddysgu dawnsiwr cymdeithasol mewn gwersi yn yr "Ultimate Ballroom". Mae dysgu dawnsio wedi bod yn rywbeth dwi wedi eisiau cyflawni erioed. Mae dysgu dawnsio yn brofiad gwych o hapusrwydd a chyrhaeddiad. Byddwn yn annog unrhyw un sydd a diddordeb mewn dawnsio i fynd amdani.

H.D.

RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Euros Jones Evans am weini Cymun y Pasg ar Ebrill 17eg. Gwasanaeth fendithiol iawn.

Siomedig oedd gorfod cau y drysau ar brynhawn Sul, Mai 1af. Yr oedd nifer o'r ffyddloniaid yn anhwylyd, ac yn methu a dod i'r oedfa.

Rhaid oedd ymddiheurio wrth Lyndon Lloyd, a dymuno yn dda iddo yntau.

Mai 29ain: Oedfa i'w threfnu.

Mehefin

12fed: 2.00 Cymun Parch. Judith Morris

26ain: 10.30 Oedfa yn ngofal yr aelodau

Gorffennaf 10fed: 10.30 Cymun Parch. Geoffrey Eynon.

Cynhaliwyd gwylnos ar nos Sul, 24ain o Ebrill i gofio am Griff a Patti Thomas, Ffynnon Samson, gan obeithio am degwch i'r digwyddiad.

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR

Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfnbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

Yr oedd yr oedfa o dan ofal Hefin Wyn. Cymerwyd rhan gan Eilir Davies, Emyr Phillips, John Davies, Parch. Ken Thomas, Eurfyl Lewis a Muriel John.

Cafwyd dwy neges wedi ei recordio wrth y Parch. Peter Thomas (gweinidog Rhydwylym amser y drychineb) a Paul Davies A.S.

Ar ôl yr oedfa aeth pawb tuag at y fynwent a sefyll am funud o dawelwch wrth y bedd.

Llongyfarchiadau i Leighton a Marilyn Bryan, Colman House, a fu yn dathlu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuniadau da iddynt, ac i bawb sydd wedi dathlu unrhyw achlysur arbennig yn ddiweddar.

EFAILWEN



Dyma lun o rai o blant Ysgol Sul Nebo wedi dychwelyd i'r ysgoldy am y tro cyntaf ers 2020. Buodd Janice Morgan yn cynnal yr Ysgol Sul ar zoom am y deunaw mis diwetha, ac mae ein diolch yn fawr iddi am gadw'r cwrdd i fynd yn ystod y Clo Mawr. Y plant yn hapus iawn yn cael cyfarfod unwaith eto.

Hoelion Wyth – Cangen Beca

Cyfarfu aelodau Hoelion Wyth Beca, yn ôl ein harfer yng Nghaffi Beca, Efailwen, a hynny ar nos Fercher, Ebrill 27ain.

Ein gŵr gwadd oedd Stephen James, Clunderwen ac es-tynodd Eurfyl Lewis groeso cynnes iddo, yn absenoldeb y Cadeirydd Eifion Evans.

Bu Stephen yn Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru) am dau dymor, o 2014 – 2018, a dyma'n

bennaf oedd testun ei anerchiad. Esboniodd taw ei brif ddyletswyddau fel Llywydd oedd bod yn lais i'r diwydiant amaethyddol gan hefyd llobio'r Llywodareth a'r Senedd yn gyson. Bu'n sôn am yr holl heriau a'r trafferthion mae ffermwyr wedi gorfod dygymod â hwy dros yr ugain mlynedd a mwy diwethaf, megis clwy'r traed a'r genau, diciau, BSE, ac ar hyn o bryd Brexit, Covid a rhyfel Wcrain.

Bu Stephen yn lefarydd yr Undeb ar diciau mewn gwartheg ac esboniodd bod y diciau dal yn broblem enbyd yn y broydd hyn. Mae lle i ofni bydd y sefyllfa'n gwaethgu eto, gwaetha'r modd.

Cafodd ei apwyntio'n gadeirydd WAHWFG Llywodraeth Cymru (Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru) yn 2018, a bydd e'n gweithredu fel cadeirydd am dros dwy flynedd eto.

Cafodd yr aelode gyfle i roi eu barn a'u sylwadau ar ni-fer o faterion bu Stephen yn sôn amdanynt a gwerth-fawrogwyd hyn yn fawr iawn.

Diolchodd Eifion Griffiths, yn ddiffuant i Stephen, am noson wych a bu pawb yn cymdeithasu ymhellach wrth fwynhau basned o gawl. Diolch o galon i Robert am yr arlwy ac am ei groeso arferol, gwerthfawrogwn y cyfan yn fawr iawn.

Taith Ddirgel

Bu rhaid gohirio'r daith ddirgel oedd fod i'w chynnal ar Mai 21ain ond y bwriad nawr yw ei chynnal ar ddechrau mis Medi.



Ken Thomas ac Eurfyl Lewis yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Stephen James

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adelladwyr

DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

CWMBACH

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Anne Summerbell, Pantymaen. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Paul a'r plant a'u teuluoedd. Roedd Anne yn aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched Llanwinio a hi oedd y Llywydd presennol. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Arberth yng ngofal y Parch. Huw George.

Cymunedau Cefnogol Dementia

Llongyfarchiadau i Cherry Evans ar ennill y wobwr gyntaf yn y categori Cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia mewn seremoni a drefnwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yng Nghaerdydd.

Mae Cherry yn gweithio gyda Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro ar gyfer prosiect "Cymunedau Cefnogol Dementia" sy'n ceisio gwella bywydau pobol sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofaliwyr. Mae'r prosiect wedi creu rhwydwaith o grwpiau cymorth dementia i helpu pobol sy'n byw gyda dementia i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl, teimlo'n rhan o'u cymuned a theimlo'n hyderus, cael eu deall a'u parchu, ac i barhau i fwynhau eu hobiau a'u diddordebau.



Yn y llun gwelir Simon Birch, Cherry Evans, Gary Owen a Sue Evans, Prif weithredwr Gofal Cymdeithaol Cymru

RHYDYCEISIAID

Pulpudd. Gwasanaethwyd yn oedfa'r Cymun ar Sul, Mai 1af gan Y Parchg. Guto Llywelyn; diolch iddo am ei barodrwydd bob amser.

.....hefyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddo ef a Mrs Catrin Llywelyn ar ddathlu eu Priodas Arian ym mis Mawrth. Boed i chwi gael blynyddoedd o iechyd ac hapusrwydd.

....hefyd i Elfed ac Eifiona Lewis, 3 Llyscoed a fu'n dathlu eu Priodas Aur ym mis Mawrth.

Ysbyty. Dymuniadau gorau i Trefor Griffiths sydd yn dal i fod yn Ysbyty Glangwili.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Nansi Evans ar ddathlu ei phenblwydd yn 97 oed ym mis Ebrill. Mae wedi bod yn gwneud gwaith arbennig i'r Cardi Bach bob mis.

...hefyd diolch o galon i Mrs Rhoswen Llewelyn am gyflawni bron i 40 mlynedd o wasanaeth fel golygydd

Y Cardi Bach – campus! Mae'r papur bro diddorol yn rhoi pleser i ni'r darllenwyr. Dymunwn gwell iechyd iddi yn y dyfodol.

CWMFELIN MYNACH

RAMOTH. Cafwyd oedfa Gymun ar Fai 1af dan arweiniad Y Parchg Alwyn Daniels ac oedfa brynhawn ar Fai 8fed gan Y Parchg. Huw George. Diolch iddynt.

Suliau Mehefin

5ed: Oedfa Gymun Tudur Dylan Jones - 10.30

12fed: Oedfa dan ofal Y Parchg. Huw George - 2.00

DIOLCH. Dymuna Nansi Evans ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur ei phenblwydd yn 97 oed, hefyd am help Meirwen ac Olive yn y tŷ wrth groesawu nifer o ffrindiau fu'n galw.

TRELECH

Llongyfarchiadau enfawr i Jean Lewis, Neuadd ar gael ei hail-ethol yn gynghorwraig dros yr ardal yn yr etholiadau lleol diweddar. Haeddiannol iawn!

....hefyd i Andrew a Jane, Caerwenog ar eu priodas yn Eglwys Hendy Gwyn ar Dâf ddiwedd mis Ebrill.

....hefyd llongyfarchiadau mawr i Owain a Miriam, Henffald ar eu priodas hwythau yng Nghapel y Graig ym mis Mawrth.

....hefyd mae Matthew a Claire, Castle Hill wedi priodi ar ddechrau mis Mai. Pob dymuniad da iddynt hwythau hefyd.

....hefyd llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gethin Thomas, Bryn Glas ar ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Mawrth.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sion Page, Caerwenog a'r teulu ar farwolaeth ei famgu arbennig sef Mrs Eira Page.

Braf iawn yw croesawu Rhian, Sarnau nôl i ardal Trelech ar ôl cyfnod yn byw yn Llandysul. Mae Rhian, Simon a'r ddau blentyn Catrin a Howel yn byw dros dro yn Gilfach y Gweision. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da hefyd i Rhian ar ddathlu ei phenblwydd arbennig yn ystod mis Mawrth.

Pob lwc i ieuencid yr ardal sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar ddiwedd y mis hwn ar ôl colli cystadlu am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Pob lwc i bawb sydd yn sefyll arholiadau TGAU, Safon Uwch ac arholiadau Coleg yn ystod yr wythnosau nesaf.

Aelwyd Hafodwenog

Dymuniadau gorau i bawb o Aelwyd iau ac Aelwyd hŷn Hafodwenog a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nimbych.

Braf fydd gweld pobl ifanc ein hardal yn cystadlu unwaith eto. Pob lwc i chi gyd!

Hefyd dymuniadau gorau i Gôr Ysgol Hafodwenog a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

Capel y Graig

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae Lyndon Lloyd, Alun Lenny, Maria Evans, Natalie Morgan, y Parchg Jill-Hailey Harries yn ogystal a'r aelodau, plant a'r bobl ifanc wedi bod yn cadw oedfaon. Diolch yn fawr iawn iddynt.

Ward Trelech

Diolch i etholwyr Ward Trelech am bleidleisio drosof ac am y cyfle a'r fraint o gael eich cynrychioli a'ch gwasanaethu unwaith yn rhagor. Diolch yn fawr iawn am y croeso cynnes a'r sgysiau difyr ar stepen drws ac am bob cefnogaeth yn ystod yr ymgyrch. Diolch o galon i bawb, Jean.

Ffôn 01994 484334; E-bost JeanLewis@carmarthen-shire.gov.uk.

Apêl Wcráin

Dymuna Jean ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu'n hael iawn tuag at Apêl Wcráin. Casglwyd y nwyddau gan Oleksandr Lopuha, brodor o Wcráin. ond sydd bellach yn byw ac yn gweithio'n lleol. Mae ganddo gyswllt yn Llundain ac mae'n cludo nwyddau yno bob pythefnos i'w hanfon i Wcráin.

PENYBONT

C.Ff.I. Penybont

Llongyfarchiadau mawr i Mareed Evans ar gael ei dewis yn Llysghenhades C.Ff.I. Sir Gâr. Mae pawb yn y clwb yn dymuno'n dda i ti Mareed, yn ystod y flwyddyn i ddod.



Dyma Mareed, yn y canol, gyda'i dirprwyon, Betsan Jones, C.Ff.I. Llanllwni
Cathrin Jones, C.Ff.I. Llanllwni
Rosie Davies, C.Ff.I. Llannon
Jasmine Emerick, C.Ff.I. Llangadog

Criw ffensio



Llongyfarchiadau mawr hefyd i griw y Ffensio Iau o glwb Penybont, sef Carwyn Thomas, Gilbert Roberts a Gwion Jones-Howells ar ddod yn 2il yn Niwrnod Gwaith Maes C.Ff.I. Cymru.

GOHEBYDD

Mae angen gohebydd i Penybont a'r cylch. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch ag Eurfyl Lewis, Cadeirydd neu Beti-Wyn James, Ysgrifennydd.

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Y mae cyfnod y Pasg wedi dod a mynd bellach a chafwyd cyfle i ddathlu'r Pasg gydag oedfaon ar Gwener y Grog-lith a Sul y Pasg. Braf oedd cael cyfle i gymdeithasu am y tro cyntaf ers dwy flynedd ar ôl oedfa Gwener y Grog-lith a hynny gyda phaned a 'Hot Cross Bun'!

Yn ystod mis Mai y cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol bob blwyddyn ac felly y bu eleni. Cafwyd cyfle i gynnal oedfaon Cymorth Cristnogol yn y tri chapel gyda'r aelodau yn cymryd rhan. A chafwyd casgliad at eu gwaith yn y 3 chapel.

Dewiswyd eglwys y Tabernacl fel 'Eglwys y Mis' ar gyfer mis Mai gan Undeb yr Annibynwyr. Cafwyd erthygl helaeth yn sôn am hanes ein chapel yn ogystal â'r sefyllfa heddiw a nifer o luniau lliwgar. Gellir gweld yr erthygl ar 'ANNIBYNWYR.ORG'

Mae Guto yn Festri'r Tabernacl bob dydd Mercher rhwng 12.00 a 14.00. Croeso i unrhyw un, yn aelod neu

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN

Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygywyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
 - Bwydydd at ddeiet arbennig
 - Bwydydd moethus
 - Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

beidio, alw mewn am sgwrs. 'Mae problem wedi ei rhannu yn broblem wedi ei haneru'.

Rydym bellach yn ôl i'r drefn arferol gydag oedfaon yn y Tabernacl am 9.30 un wythnos ac 11.00 yr wythnos ganlynol. Croeso cynnes i bawb a chysylltwch os gwelwch yn dda am fwy o fanylion.

Penblwydd



Llongyfarchiadau mawr i Trefor Evans a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 70 yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth yr aelodau i gyd. Bu Trefor yn dathlu gyda thaith i fynyr Wyddfa ar ddiwrnod ei ben-blwydd.

Gofalaeth

**Bethel, Llanddewi Efelffre,
Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf
a Triniti, Llanboidy**

Mae'r Eglwysi Annibynnol uchod yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth llawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw Eglwys neu grŵp o Eglwysi Annibynnol, Bedyddiedig neu Bresbyteriaid sydd â diddordeb i ymuno â'r ofalaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Meryl James

Ysgrifennydd yr Ofalaeth
Ffôn: 01994 240350

E-bost: meryljames534@btinternet.com

Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

Enillwyr Clwb 100

Enillwyr Mis Ebrill

£50 – Roy Adams.

£40 – Islwyn Davies.

£30 – Ann Taylor.

£20 – Davies Builders.

Enillwyr Mis Mai

£50 – Sian Puw.

£40 – Aeres Jones

£30 – Davies Builders.

£20 – Elizabeth White.

Penblwydd hapus a dymuniadau gorau i Margarette Hughes, Maes y Ffynnon, Gerddi'r Ffynnon, a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fehefin 14eg.

Codi arian i elusen JDRF



Dyma Gruffudd Pugh, wŷr Siân â Richard Pugh Hendy-Gwyn. Cafodd Gruffudd ddiagnosis o Fath 1 diabetes pan yn chwe mlwydd oed yn 2017. Mae Math 1 diabetes yn gyflwr 'autoimmune' sy'n atal y corff rhag creu insiwlîn, gyda'r unigolyn yn gorfod rheoli glwcos ei gwaed ei hun.

Cynhaliwyd cinio yn West Regwm ar ddydd Sadwrn, Ebrill 2il pan codwyd swm sylweddol o £3,045 ar gyfer elusen JDRF. Mae JDRF yn elusen ryngwladol sy'n gwneud ymchwil mewn i atal Math 1, gwella bywyd pobl gyda'r cyflwr ac i ddarganfod gwellhad.

Diolch i Eryl Rosser ac i bawb oedd wedi cefnogi.

**FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS**
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

CAFFI BECA
Oriau Agor: 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisiau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

I orffen y tymor eleni ar y 5ed o Fai, aeth yr aelodau ar daith ddirgel a drefnwyd gan Mel Jenkins, ein swyddog adloniant. Ar ôl teithio ar yr M4 am ryw ddwy awr, datgelwyd y lleoliad yr oeddwn yn ymweld â hi, sef Maenordy a gerddi Llancaich Fawr, ger Nelson, Treharris. Adeilad prydferth a gafodd ei adeiladu yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg ar gyfer Dafydd ap Richard ac a ddyluniwyd fel bod modd ei amddiffyn yn hawdd yn ystod teyrnasiad cythryblus y Tuduriaid. Mae'r Maenordy wedi ei ddodrefnu a'i gyflwyno fel yr oedd yn ystod y Rhyfel Cartref yn 1645.

Taith hanes oedd hwn a dangoswyd holl ystafelloedd y maenordy gan dywyswyr gwahanol i bob ystafell oedd wedi gwisgo yn nillad y cyfnod ac yn cyflwyno gwybodaeth a sylwadau fel petaent yn byw ac wedi eu cyflogi yn ystod y cyfnod gan feistr y tŷ. Dechreuwyd y daith yn y ceginau, ac ymlaen i ystafell ble byddai llysoedd yn cael eu cynnal (nid o reidrwydd llysoedd barn); ystafell fyw'r teulu; ystafelloedd gwely ac yn ddiddorol iawn, yr ystafell arfogaeth lle'r oedd yr holl arfau yn cael eu cadw. Un ffaith ddiddorol, mae'n nhw'n dweud fod ysbrydion yn y tŷ gyda staff ac ymwelwyr yn honni eu bod wedi cael profiad o hyn!

Taith ddiddorol dros ben gyda'r tywyswyr yn dod a llawer o hiwmor i mewn i'w cyflwyniadau. Yn ogystal, mae'r safle yn cynnal gweithgareddau o bob math, yn cynnwys priodasau, cynadleddau, tŷ bwyta a siop grefftau.



Maenordy Llancaich

Cafwyd pryd blasus o fwyd ar y ffordd adref a cyn i bawb wahanu, diolchodd Claude James, y Cadeirydd i Mel am drefnu'r diwrnod ac i swyddogion y gangen am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, y 1af o Fedi, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn.

LLANBOIDY

Trinity

Ar ddydd Sul, Ebrill 24ain, ymunodd aelodau capel Tabernacl a'r oedfa yn Trinity, oedd o dan ofal Annalyn Davies, a diolch iddi am ei gwasanaeth. Dydd Sul, 1af o Fai cafwyd oedfa gymun o dan ofal y Parchedig Guto Llywelyn. Bu'n dymuno'n dda i Meredydd Richards a fydd yn priodi ar Fai 28ain. Dydd Sul Cymorth Cristnogol oedd hi ar y 8fed o Fai, pan fu'r aelodau'n cymryd rhan, a chafwyd neges bwrpasol gan y gweinidog. Bu'n cydymdeimlo â Cynthia Phillips a'r teulu ar ôl iddi golli ei brawd Adrian Jones.

Gwellhad buan i Timothy Phillips, Plas-y-Bwci sydd wedi cael triniaeth llawfeddygol a da yw clywed ei fod wedi dod adref.


Penblwydd Hapus



Llongyfarchiadau i Delyth Dent a fu yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Diolch. Dymuna Delyth Dent, Maencoch ddiolch i bawb am yr holl negeseuon, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar.

HENLLANFALLTEG



Llongyfarchiadau i Lloyd Jackson sydd wedi graddio o Brifysgol Reading gyda BSc yn Pensaerniaeth. Fe oedd y disgybl olaf ar gofrestr ysgol Henllan Amgoed (yr ieuen-gaf yn yr ysgol pan gaeodd yr ysgol yn 2004). Yn hanesyddol mae'r ysgol wedi troi mas ymhell uwchlaw'r cyfartaledd o academyddion a dinasyddion llwyddiannus. Pob lwc yn dy radd Meistr wrth Dad, Mam, Owen a Sion.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Trefor Griffiths, Llanbariets, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau i Lewis Gibbin, aelod o C.Ff.I. Hendygwyn a enillodd Stocmon Iau ar ddiwrnod Gwaith Maes Sir Gâr, ac ar ddiwrnod Gwaith Maes Cymru enillodd tîm Iau Sir Gâr y wobwr gyntaf, ac fe ddaeth Lewis yn 4ydd fel unigolyn.


Da iawn i Donna a Gareth Jones o Lanfallteg sydd wedi cymeryd dau ffoadur o'r Wcraïn i mewn i'w cartref sef Vadym a Tatiana, o dan y cynllun a sefydlwyd gan y Llywodraeth sef 'Homes for Ukraine'. Rydym yn eu croesawu i'r ardal.

LLANGYNIN

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Granville a Mary Davies, Angorfa, ar ddathlu pen blwydd priodas go arbennig. Ar Ebrill 18fed roedd Granville a Mary wedi bod yn briod am 65 o flynyddoedd. Prin iawn yw'r paru priod sydd yn cyrraedd y garreg filltir hon ac mae hyn yn siwr o fod yn record ym mhlwyf Llangynin!



Llongyfarchiadau i'r ddau ar gyrraedd carreg filltir arbennig iawn!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Enid Lewis, Maesawelon, a fu farw gartref ddydd Sadwrn, Ebrill 9fed, yn 90 oed. Cofiw'n am ei brodyr Eric a John a'i chwaer Lynette, ac yn arbennig am Eric gan iddo yntau golli ei briod Kathleen o fewn ychydig ddyddiau i farwolaeth ei chwaer. Cydymdeimlad dwys â'r teulu i gyd.

Diolchiadau

Nodyn gan Lynette, chwaer Enid.

Tristwch o'r mwyaf fu colli fy chwaer Enid Francis Lewis, hoff briod y diweddar Hywel a chwaer annwyl i Eric, John, minnau Lynette a'r ddiweddar Betty, a gwelir ei heisiau fel chwaer-ying-nghyfraith, modryb a hen fod-ryb yn fawr iawn. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol preifat ar yr aelwyd ym Maesawelon, Llangynin, Ddydd Mercher, 20fed Ebrill am 10.30 y bore. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Huw George. Yn dilyn y gwasanaeth, rhoddwyd Enid i orffwys gyda Hywel ei gŵr ym Mynwent Capel Salem, Meidrim. Yr archgludwyr yn y tŷ ac ar lan y bedd oedd Gwyn Davies, Geraint Davies, David Davies a Leighton Davies.

Dymuna'r teulu ddiolch i'r perthnasau, ffrindiau a'r cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth.

Yn dilyn yr angladd roedd y teulu wedi paratoi lluniaeth ysgafn yn Neuadd Capel Y Bryn, Llangynin. Hoffai'r teulu ddiolch i aelodau'r Bryn am ganiatâd i'w gynnal yno a diolch o galon i'r Parchedig Huw George am ei wasanaeth bendigedig, ac i Stuart a Peter Evans, y trefnwyr angladdau, am wneud eu gwaith mor ofalus ac urddasol. *Diolch yn fawr i bawb.*



Nodyn o ddiolch gan Gordon, nai Enid

Bu farw Anti Enid yn dawel gartref ym Maesawelon gyda'r teulu o'i chwmpas, a bydd colled fawr yma ar ei hôl. Rydym fel teulu yn ddiolchgar am yr atgofion hapus sydd gennym ac mae wedi bod yn anrhydedd i gael gofalu amdani yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Treuliais i'r rhan fwyaf o fy mywyd gydag Anti Enid. Roedd hi fel mam i mi. Roedd hi'n garedeg, yn ofalgar a phob amser yn rhoi eraill yn gyntaf. Roeddwn i, Dionne a'r plant yn ei charu a fyddwn ni byth yn ei hanghofio. Hoffem ni ddiolch i'n teulu, ein ffrindiau a'n cymdogion am yr holl negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd gennym yn ystod y cyfnod anodd hwn. Hoffwn i hefyd ddiolch i Dionne yn arbennig ac i'r plant am eu cefnogaeth a'u cymorth i ofalu am Anti Enid dros y blynyddoedd.

Estynnwn gydymdeimlad hefyd â Myra Davies, Llain, ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith, sef Maureen Griffiths o Landybie.

Gwellhad buan

Da gweld bod Tom Holliday, Afallon, yn gwella ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty ym mis Ebrill. Pob dymuniad da iddo.

Croeso

Croeso i Ryan a Marcia Griffiths sydd wedi dod i fyw yn 6, Llyscoed. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref newydd.

Bingo

Nos Iau, Ebrill 28ain, cynhaliwyd Noson Bingo gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Capel y Bryn er mwyn codi arian tuag at gynnal a chadw'r Neuadd ar gyfer y gymuned. Bu'r noson yn llwyddiannus dros ben, ac roedd hi'n hyfryd gweld y neuadd yn llawn a chymaint o gyfeillion o bell ac agos wedi dod i gefnogi'r fenter. Glyn Rees o San Clêr oedd yn galw a diolch o galon iddo ef a Robert Morgan am eu cymorth. Yn ystod yr egwyl mwynhaodd pob un sgwrs dros ddished o de neu goffi, a chafwyd cyfle i dynnu'r raffl. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rheoli a chyfeillion eraill am gyfrannu'r gwobrau raffl. Diolch yn fawr i bob un am eu cefnogaeth.

Grant i Neuadd Capel y Bryn

Mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Capel y Bryn wedi llwyddo i gael grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at wella ac adnewyddu'r Neuadd.

Roedd y Gronfa Gymunedol yn wirioneddol hoffi cais y Pwyllgor ar gyfer cyllid ac am gyfrannu swm o £9,943 i helpu'r gymuned i ffynnu.

Bwriad y Pwyllgor yw defnyddio'r arian i wella ac adnewyddu'r Neuadd, drwy baentio'r waliau allanol, gosod mwy o unedau ac offer newydd yn y gegin a phaentio a darparu llawr addas i'r stordy.

Bydd y gwaith hwn yn codi safon yr adeilad a gobaith y Pwyllgor yw y bydd llawer mwy o glybiau a mudiadau lleol yn defnyddio'r cyfleusterau newydd.

Clwb 60+

Cyfarfu'r Clwb 60 yn Neuadd Capel y Bryn ar y 14eg o Ebrill. Roedd cwmni lluosog wedi ymgasglu a chroesawyd y siaradwraig wadd, Mrs Heulwen Reese o Bwlltrap gan Verian Williams, y cadeirydd. Mae Heulwen yn amlwg a gweithgar gyda'r Eglwys ac ers blyneddoddedd wedi gweithio'n egniol dros yr Eglwys yn Llangynin. Cawsom bnawn diddorol dros ben yn gwrando arni'n son am hanes yr Eglwys o'r dechrau hyd heddiw, ac sut bod y sefydliad wedi rhestru yn Radd Dau gan Cadw. Cafwyd amryw o straeon perthnasol a'r gweithgarwch ynglyn a hi ac er mai yn y lleiafrif yw'r rhai sy'n mynychu'r ddwy oedfa y mis, mae'r faner yn dal i chwifio. Rhaid ymfalchio ei bod yn dal i fodoli a bod dal yna weithwyr yn y winllan.

Arbennig o ddiddorol fu'r arlwy a diolchwyd i Heulwen gan Cynwyl Davies. Yng ngofal y te oedd Vanw Thomas a Marian Davies. Bydd y Cyfarfod nesaf ar y 12ed o Fai. Croeso cynnes i bawb.

NEWYDDION BLAENCONIN

Y GYMANFA BWNC

1822 - 2022

Mae'r GYMANFA BWNC yn dathlu Pen-blwydd arbennig eleni ac mae'n fwriad gan yr Eglwys i nodi'r garreg filltir mewn ffordd arbennig.

Oddeutu 1822 daeth yr Ysgol Bwnc ... y 'Gatics' ... i gryn fri ym mywyd crefyddol yr ardal.

Fe'i cedwid mewn tŷ o'r enw Patshyn Bach, cartref Thomas Beynon, clocsiwr wrth ei alwedigaeth ac yna, yn ddiweddarach yn Llwyndyrys a Llwynceylun.

Gwahoddwyd y Parchedig Benjamin Davies, gweinidog y Ffynnon, i baratoi Holwyddoreg ar 'holl bynciau'r ffydd Gristionogol', a chai'r Holwyddoreg hon le amlwg yn yr Ysgol.

Dysgid penodau o'r Beibl a rhannau o'r Holwyddoreg ar y cof !

Cynhaliwyd y Gymanfa yn Rhydwylym a'r Ffynnon.

Arweinydd galluog yn yr Ysgol oedd John Davies, crydd o Fethesda. Roedd hwn yn ddyn galluog ac yn holwr ac yn esboniwr arbennig.

Tua 1832 cynhaliwyd yr Ysgol yn Tŷ Hen ac yno, cynhaliwyd dosbarthiadau arbennig yn unswydd i gynorthwyo'r werin bobol i ddysgu darllen.

Cynyddai'r Ysgol yn fawr yn ystod y blyneddoddedd hyn a dechreuwyd ychwanegu 'canu' i drefn y Gymanfa. Morris Thomas, Penrardd oedd yn gyfrifol am y canu ac yntau yn ddisgybl i Twmi James, Login.

Cynhaliwyd Ysgol Gân yng Nghrugyderi bob nos Wener a Chyfeillach bob nos Fercher yn Tŷ Hen a Dyffryn Conin bob yn ail.

Ar yr un pryd, roedd Siams Williams, Blaen y Waun, yn cynnal Ysgol i ddysgu darllen yn ei gartref. Roedd Siams Williams yn derbyn cymorth oddi wrth wraig gweinidog y Ffynnon – T E Thomas.

Meddyliwch iddynt gynnal y Gymanfa Bwnc yn yr ydian yn Nyffryn Conin a gwelwyd Ysgolion Arberth, y Ffynnon, Login a Dyffryn Conin yn bresennol. Roedd yr Ysgol Bwnc yn gyfrifol am ehangu ffiniau diwylliant yr ardal ... ennyn diddordeb yn yr ysgrythur, cynnig cyfle i'r werin i ddysgu darllen a hau hadau'r ffydd sydd wedi dwyn ffrwyth toreithiog mewn bywyd a gwasanaeth.

Ac mae dylanwad y GYMANFA BWNC yn parhau hyd y dydd heddiw !

Y GYMANFA BWNC 2022

Mae LLAWLYFR y GYMANFA BWNC bellach wedi ei argraffu, ar gael i bawb sy'n dymuno dilyn a chyfrannu i'r drafodaeth.

Yn arferol, mae'r bennod a ddewisir ar gyfer y Gymanfa Bwnc yn dod allan o un o lyfrau'r Beibl ... ac mae hynny wedi digwydd am 199 o flynyddoedd ... ond ... ym mlwyddyn y dathlu ... beth am gynnig ffordd newydd i drafod y Gair ?

Tybed, i chi wedi ystyried erioed sawl GAIR sydd yn y Beibl ?

Dros 783,000 o eiriau a nifer fawr o RIFAU ac felly, a ninnau'n dathlu pen-blwydd y Gymanfa Bwnc ... addas ac amserol fyddai edrych ar rhai o'r RHIFAU hynny sy'n ymddangos ar dudalennau'r Gair. Mae iddynt gefndir ac ystyr ac arwyddocâd a hynny, gobeithio, yn ddigon i greu newyn a syched am wirioneddau Duw.

O wythnos i wythnos byddwn yn cyflwyno'r rhifau hynny sydd yn amlwg ac yn arwyddocaol yn hanes y ffydd. Yr ydym eisoes wedi trafod 6, 7, 9, 10, 4 a 40 ac yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn ychwanegu at y casgliad.

Bydd y llawlyfr yn cynnig arweiniad argraffedig ac, ar yr un pryd, byddwn yn cyflwyno myfyrdod ar y we yn y gobaith o ennyn diddordeb disgyblion newydd. Cynhelir CYMANFA'R DATHLU dydd Sul, 5ed Mehefin am 10.30 y bore.

Yn dilyn y GYMANFA BWNC mae'n fwriad gennym i gynnal CINIO'R DATHLU yng Ngwesty Nant y Ffin.

Mae Dorothy Williams yn barod i dderbyn enwau'r sawl sy'n dymuno lle wrth y byrddau.

B B C

Bu rhaid gohirio'r **BWRDD BRECWAST CYMUNEDOL (BBC)** ym mis Ebrill a mis Mai (a diolch am eich hyblygrwydd) ond braf yw cael cyhoeddi ein bod yn eich gwahodd i ddod ynghyd fore Llun, 23ain o Fai am 10 o'r gloch i drafod syniadau, rhannu gofidiau a mwynhau'r arlwy.

Mae'r bwyd AM DDIM a lle i 30 i ddod ynghyd ac felly, y 'cyntaf i'r felin' ac ati.

I sicrhau lle, cysylltwch â Huw ...

huwmg@hotmail.com

07967807908

ANTURIAETH yr ARFORDIR

Dechreuwyd ar 'ANTURIAETH yr ARFORDIR' sawl blwyddyn yn ôl ac erbyn hyn mae'r Anturiaethwyr wedi cyrraedd Traeth Mawr ger Tyddewi. Mae'r cerddwyr wedi cwblhau tua 70 milltir ac ychydig dros 110 o filltiroedd i fynd cyn cwblhau'r 'Anturiaeth'.

Bydd yr 'Anturiaeth' yn ail-gychwyn ym mis Mehefin ... a hynny ar ddydd Mercher. Dewch i ymuno yn yr 'Anturiaeth' !

Gwlithyn Bro

Mae 'Gwlithyn Bro' mis Mai 2022 ar gael ac yn cynnwys newyddion am yr hyn sydd i ddod yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

LLANDYSILIO

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Jayne a Bryan Thomas a theulu Derlwyn, Llandysilio, ar farwolaeth tad Jayne.

...hefyd cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Morfydd Llewellyn Bowen, St Florence, a fu farw yn ddiweddar. Morfydd, Fferm y Bush fel ei hadnabyddir, oedd merch Polly a Ken Jones.

Priodas Hapus



Llongyfarchiadau mawr i Rebecca Roblin a Ryan Pearce ar ddathlu eu priodas ar Ebrill 30ain. Mae Rebecca yn ferch i Gwyn a Judith Roblin. Priodwyd yn Eglwys Sant Tysilio, Llandysilio a cynhaliwyd y wledd ym Mhant yr Athro. Priodas arall bu rhaid gohirio oherwydd Covid. Priodas hapus iddynt.

Graddio



Llongyfarchiadau i Sion Thomas ar dderbyn gradd mewn Dylunio Pensaernïol a Thechnoleg (Architectural Design and Technology) o Brifysgol Metropolitan, Caerdydd. (Dosbarth o 2021)

Yn y llun gwelir Sion gyda'i fam Wendy a'i frawd James.

Penblwydd hapus

Penblwydd hapus i Gareth Morgan, Merydd a oedd yn 60 oed ar Ebrill 30ain.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Georgina Luke, Maesybryn ar lwyddo yn ei phrawf gyrru.

....hefyd i Sioned Twose o Llandysilio ar ennill £4,000 ar y 'Pembrokeshire Lottery'

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwyneth a Gareth Morris ar enedigaeth eu mab, Celt Wyn Morris ar yr 27ain o Fawrth. Brawd bach i Tomos, ŵyr arall i Henry Morris, 1 Rock House a nai i Melissa a Dafydd.

Arwyr Llandysilio

Da iawn i Sion Pridmore a fu'n rhedeg hanner marathon Caerdydd a chodi £600 i Marie Curie. Diolch i bawb oedd wedi ei gefnogi.



....hefyd i feibion a dwy wyres Janet a Dyfrig Davies, Llandysilio, ar wneud y CarTen, sef beicio o Gaerdydd i Ddinbych y Pysgod, sef 108 milltir, ar y 7fed o Fai.

Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Cynhelir Bore Coffi a stondinau grwpiau lleol i ddathlu Jiwibili y Frenhines yn Neuadd Llandysilio ar fore Iau, yr 2il o Fehefin, am 10 yb tan 12 canol dydd. Croeso cynnes i bawb.

Dewch i ymuno â ni yng nghyfarfod Pwyllgor Neuadd Llandysilio, mae croeso mawr i chi. Rydym yn cwrdd ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh.

CYLCH MEITHRIN a CYLCH TI a FI

Lleoliad: Neuadd Llandysilio, Clunderwen. SA66 7SY

Ar agor: Dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener

9 - 12yb

Arweinydd: Liz Lewis ♦ Ffôn: 07760 135392

E-bost: cmllandysilio@outlook.com

Rhif Elusen Cofrestredig: 1089716



...hefyd da iawn a llongyfarchiadau i Colin Lewis a Hannah Hammersley o Llandysilio ar goncro Bwystfil Preseli, Maenclochog, ar ddydd Sadwrn, 7fed o Fai.

CYLCH TI a FI LLANDYSILIO

I blant 0-4 a'i Rhieni / Gwarchodwyr

Bore Mercher

10-12yb

Yn Neuadd Llandysilio

Pris: £3



Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio

Ar brynhawwn Gwener, 3ydd o Fehefin bydd y merched yn cynnal Te Prynhawn gymunedol i ddathlu Jiwbili y Frenhines o 3.30yp tan 5.30yp yn Neuadd Clunderwen. Croeso i bawb.

Cynhelir y sefydliad ar y Nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen am 7.30yh. croeso i chi os am ymuno gyda ni.

CLUNDERWEN

Llongyfarchiadau i Dewi a Laura Williams, Bryncoed, ar enedigaeth eu wyres Mabli Gwen, merch fach i Angharad a Nick, o Penybont ar Ogwr a nith i Gethin.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Jane Howells, merch Eric a Val, Erwlas, (Sarnlas) ac Andrew Evans. Priodwyd yn Eglwys Santes Fair, Hendy-gwyn, gyda'r Parchgedigion Kingsley Taylor a Huw George yn gwasanaethu. Wedi'r gwasanaeth teithiodd y par priod mewn tractor mawr glas i Westy Nantylfin am y wled!



Priodas dda hefyd i Ffion, merch Gary ac Eleri Jones, Pwll Trap, a Dion, mab Keith a Carol Gibby o Maenclochog. Priodwyd y ddau yng Nghapel Bethlehem, Pwll Trap gyda'r Parch. Rhodri Glyn Thomas yn gwasanaethu. Bu'r wled ym Mhant yr Athro, Llansteffan.

Cydymdeimlwn â Jayne Thomas, Caerseli, a'i brawd Jonathan wedi iddynt colli eu tad sef Mr John Mathias, Parcsaeson, Ludchurch. Bu'r angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth gyda'r Parch. Huw George yn gwasanaethu.

Llongyfarchiadau mawr i Simon Wright ar gael ei ethol yn Gynghorwr Sir dros Ward Maenclochog yn dilyn yr etholiad ar y 5ed o Fai.

Penblwydd hapus iawn i mam, sef Eirianydd Lewis a oedd yn 95 ar 3ydd o Fai. Cariad mawr oddiwrth y teulu i gyd.

....hefyd i Dafydd Wright oedd yn 30 oed ar Mai 11eg ! Cariad mawr oddi wrth Kelly, Emily, Noah, Mami, Dadi, Carys, Mamgu, daddads a Mam.

Hoffai Simon Wright ddiolch o galon i bawb a wnaeth bleidleisio drosto yn yr etholiad diweddar i'w ddewis yn Gynghorydd Sir i Ward Maenclochog. Roedd ennill yn anrhydedd mawr ac mae'n edrych ymlaen i weithio'n galed ac i helpu pawb yn y gymuned. *Diolch i bawb.*

Priodas Ddiemwnt



Llongyfarchiadau i Dadi a Mami sef Neville a Val Jones, Gereden, Hermon at ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Dyma lun o'r ddau yn dathlu yng Ngwesty y Cliff, Gwbert, lle cynhaliwyd eu gwledd priodas 60 mlynedd nôl.

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855



YSGOL BECA

Croesawu disgyblion newydd

Ar ddechrau'r tymor hwn rydym wedi croesawu tri disgybl newydd i ymuno â chriw Ysgol Beca. Hoffai dosbarth Carn Gyfrwy groesawu Evelyn, Freddie a Jazmine. Mae'r tri yn hapus iawn yn yr ysgol ac wedi gwneud ffrindiau newydd yn barod.

Cog Urdd



Llongyfarchiadau mawr i Cai Lewis ym mlwyddyn 6 ar ôl dod yn ail yn rownd rhanbarthol y gystadleuaeth Cog Urdd. Cafodd Cai fore arbennig yn cystadlu a chreu 'Stir-Fry' cig. Da iawn ti Cai, mae'r bwyd yn edrych yn flasus!

Trip i'r Gerddi Botaneg

Mae'r disgyblion wedi bod yn ffodus i fynychu trip i'r Gerddi Botaneg yn ddiweddar. Cafodd dosbarthiadau Carn Menyn a Chwm Cerwyn weithdy ar Fasnach Deg tra bod dosbarth Carn Gyfrwy yn mynd ar daith hela'r arth!



Diwrnod arbennig yn crwydro'r gerddi.

YSGOL GRIFFITH JONES

Eisteddfod yr Urdd

Braf oedd gweld rhai o'n disgyblion yn llwyddo yng nghystadlaethau Celf Dylunio a Thechnoleg yr Urdd, Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol:

Lluniadu Bl5+6: Naomi Miller 2il,

Ffotograff wedi'i addasu Bl5+6: Isobel Durbridge 1af,

Ffotograff Du a Gwyn Bl5+6: Isobel Durbridge 1af,

Ffotograff Lliw Bl5+6: Isobel Durbridge 3ydd,

Cyfes o Ffotograffau Bl5+6: Isobel Durbridge 2il,

Argraffu Bl3+4: Nia Jenkins 1af,

Argraffu Bl5+6: Naomi Miller 1af,

Creu Tecstiliau Bl5+6: Isobel Durbridge 1af,

Gemwaith Bl5+6: Isobel Durbridge 1af,
Gwaith 3D Grŵp Bl5+6 Isobel Durbridge a Seren Ayre
2il.

Chwaraeon yr Urdd



Bu bechgyn Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament rygbi'r Urdd gan wneud ymdrech arbennig o dda.

Cogurdd

Aeth Non Thomas ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn rownd Rhanbarthol cystadleuaeth Cogurdd. Er na fu gwobr y tro hyn, llwyddodd i goginio 'stir fry' hynod o flasus. Da iawn ti Non!

Ymwelwyr

Croesawyd Cwmni Sbectrwm i'r ysgol i gynnal sesiynau Iechyd a Lles gyda disgyblion o Flwyddyn 2 i 5.

Cwis Dim Clem



Bu disgyblion Dosbarth Myrddin sef Daisy, Faye, Lewis a Naomi yn cystadlu yn rownd gyntaf 'Cwis Dim Clem' i ddosbarthiadau Cymraeg Ail Iaith y Sir. Llongyfarchiadau ar gystadlu mor dda. Pob hwyl yn y rownd derfynol.

YSGOL HAFODWENOG

Disgyblion Newydd

Croeso i Catrin, Daisy a Lucas sydd newydd ddechrau yn yr ysgol.

Cogurdd

Llongyfarchiadau i Grace Farrant am gystadlu yn yr ail rownd o Cogurdd yn ysgol Bro Myrddin.

Prosiect y Celfyddydau Creadigol Cymru

Cawsom brynhawn i'w gofio yn yr ysgol ar brynhawn dydd Gwener, 29ain o Ebrill wrth ddathlu diwedd ein ail rhan o'n prosiect gyda Celfyddydau Creadigol Cymru! Mae'r profiadau mae'r plant a'r staff wedi manteisio arnynt dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn anhygoel a byddant yn aros yn y cof. Diolch i'r ymarferwyr creadigol Cassandra Lishman a Tudur Phillips am eu hymroddiad y tro yma, ac i bawb a gyfrannodd at y prosiect a'r prynhawn o ddathlu.



Ambiwlans i Wcráin

Daeth y disgyblion i'r ysgol yng ngwisg eu hunain am gyfraniad o £1 neu fwy. Aeth yr arian a godwyd tuag at ymgyrch Mr a Mrs Rob Holland, Penboyr sydd wedi prynu ambiwlans gyda'r bwriad o'i llenwi gyda chyflenwadau meddygol a rhywfaint o offer allweddol i gynorthwyo pobl Wcráin. Mae Mrs Jayne Holland yn gyn-athrawes. Bydd y ddau yn gyrru'r Ambiwlans allan i Rzeszow, Gwlad Pwyl ac yn trosglwyddo'r ambiwlans i rywun fydd yn disgwyl amdanynt. Bydd yr ambiwlans wedyn yn mynd ar ei thaith i Wcráin a'r ysbytai fydd angen y cymorth.

Cynhaliwyd gwasanaeth boreol arbennig lle roedd Mr a Mrs Holland, Penboyr yn bresennol. Cafodd y disgyblion gyfle i weld yr ambiwlans fydd yn mynd allan i Wcráin.



YSGOL BRO BRYNACH

Ar ddydd Gwener, 29ain o Ebrill teithiodd yr ysgol gyfan i'r gerddi Botaneg. Cafwyd diwrnod hwylus dros ben gyda'r disgyblion yn mwynhau gwneud amryw o weithgareddau gan gynnwys masnach deg, sblish sblash a helfa'r arth. Roedd yn ddiwrnod braf a chafwyd picnic hyfryd yn yr haul.

Ers gwyliau'r Pasg, braf yw cael ail-ddechrau gwasanaethau ysgol gyda'r plant yn rhannu profiadau, gwrando ar storïau, cyd-ganu ac yn cael gwobrau disgybl yr wythnos, Cymro / Cymraes yr wythnos ac unigolyn sydd yn dangos gwerth. Gwerth y mis oedd Tegwch.



YSGOL BANCYFELIN

Croeso



Croeso i chwe disgybl newydd sydd wedi dechrau yn Ysgol Bancyfelin ar ddechrau tymor yr Haf, gan gynnwys pedwar disgybl sydd yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf.

Gwasanaeth

Braf oedd estyn croeso nôl i'r Parch. Beti Wyn James i gynnal gwasanaeth gyda ni yn yr ysgol. Bu Beti Wyn yn ein dysgu am y blodyn haul sef blodyn cenedlaethol Wcrain ac mae wedi rhoi her i'r disgyblion i dyfu blodau'r haul. Rydyn ni gyd yn edrych ymlaen i weld yr hadau daeth Beti Wyn mewn, yn tyfu ac yn harddu'r ardal, a'n hatgoffa i weddio dros ddioddefwyr y rhyfel yn Wcrain.



gan Guy Manning

Cylch Meithrin Hywel Dda

Clwb 200 Cylch Hywel Dda

Enillwyr mis Ebrill

£40 rhif 158 Emma James

£20 rhif 58 Susan Allen

£10 rhif 116 Margarette & Tony Hughes

Siopa yn Llawn Cariad



Rydyn ni wedi bod siopa yn Llawn Cariad San Cler, siop hyfryd i brynu adnoddau Cymraeg i'r Cylchllyfrau, tegan meddal Mr Urdd, sticeri Crefftau Clos yr Eithin, jigso, matiau chwarae clai Cyw a chardiau Lliw Llew Cyw. Diolch unwaith to i staff Siop Sarah am eu rhodd ariannol sydd wedi helpu i brynu'r adnoddau newydd.

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen

Ffôn: 07967 220289

DERI PAGE CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWYR ADEILADU

Gwasanaeth Cyflawn

Wernddu
Stryd y Brenin Edward
Hendygywyn ar Daf
SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534
Symudol: 07966 411443



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT


♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr,
diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land
Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr
fod eich Land Rover chi yn mynd crystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's
o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lâr - Dioddydd**

Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30
Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482
Heol yr Orsaf,
San Clêr





Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**




Nifer y dyddiau

Mai

Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5
Sad 28	<i>Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC</i>	1
Mehefin		
Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3
Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1
Gorffennaf		
Sad 9	<i>Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC</i>	1
Maw 19 a Mer 20	<i>Sioe Frenhinol Cymru</i>	1
Iau 21	Llandudno	5
Iau 28	Castell Highclere (Abaty Donwnton)	2
Awst		
Llun 1, Mer 3 a Gwe 5	Eisteddfod Genedlaethol	1
Maw 30	Gwibdaith Dirgel	1
Medi		
Llun 5	Ardal y Llynnoedd	5
Llun 12	Eastbourne	5
Sad 17	Gwyl Fwyd y Fenni	1
Maw 20	Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert	2
Gwe 23	Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray	5

Nifer y dyddiau

Hydref

Llun 3	Iwerddon - Kerry a Dingle	6
Gwe 14	Stratford-upon-Avon	4
Sad 15	<i>Sioe Gerdd - South Pacific, CMC</i>	1
Sad 29	<i>Syr Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS</i>	1
Tachwedd		
Gwe 4	Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton	4
Sad 5	<i>Sioe Gerdd - Sister Act, CMC</i>	1
Gwe 11	Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire	4
Sad 19	Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)	2
Sad 19	<i>Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC</i>	1
Gwe 25	Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod	3
Sad 26	Gwyl Olau Longleat	2
Rhagfyr		
Sad 3	Llwybr Goleuadau Palas Blenheim	2
Sad 10	Nadolig Gerddi Kew	2
Sad 17	<i>Sioe Gerdd - Les Miserables, CMC</i>	1
Edrych ymlaen i 2023		
Ionawr - <i>Sioe Gerdd Bugsy Malone, Chwefror</i> - <i>Riviera Lloegr,</i>		
Mai - <i>Petals, Poppies a Porcelain, Mehefin</i> - <i>Ucheldiroedd yr Alban</i>		
Medi - <i>Seidr efo Rhosys (Swydd Dyfnaint)</i>		
Hydref - <i>Iwerddon, Mynyddoedd Wicklow, Gerddi a Dinas Dilyn</i>		
A llawer mwy i'w drefnu		

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Cornel Garddio

gan *W John Davies, Hendygywyn*

Rwyf yma, ar y 5ed o Fai, yn eistedd lawr i ysgrifennu fy ngholofn garddio. Diwrnod braidd yn gymylog â'r gwynt o'r gogledd orllewin yn hen ddigon oer. Cawsom Ebrill a haul tanbaid bron bob dydd, a fawr o law yn ystod yr holl fis. Yna rhan amlaf, nosweithiau rhewllyd, a hyn yn cadw tymheredd pridd ein gerddi lawer oerach na ddylai fod. Roeddwn innau ar bigau'r drain eisiau hau hadau mân, ac fe wnes hynny tua canol y mis, ond yr un pryd yn dyfrio fy hunan, oherwydd bod y pridd braidd yn oer. Erbyn heddiw beth bynnag, mae popeth wedi egino, ond araf yw'r tyfiant, ac ofnaf mai fel hyn y bydd nes i ni gael tipyn mwy o law, a cyntaf ddaw, gore gyd, oherwydd mae'n amlwg fod dyfrhau â dŵr tap ddim hanner cystal â glaw naturiol.

Wedi dweud hyn, pythefnos yn ôl, darllenais mewn papur dyddiol fod ansawdd y ffrwythau a llysiau sydd ar werth yn ein siopau heddiw ond gwerth hanner eu lles fel bwyd. Mae hyn yn dilyn fel roeddwn ddeugain mlynedd yn ôl, pan gytunwyd gan banel o wyddonwyr blaenllaw, fod yr ansawdd yn lleihau ochr yn ochr ac ansawdd y pridd, a hyn dros yr holl fyd yn gyffredinol. Mae'r dirywiad oherwydd gordddefnydd o wrtaith annaturiol, a hefyd orfridio a newid geneteg (genetics) ac yn y blaen. Gwnaethant hefyd y pwynt pwysig fod elfennau hybrin (trace elements) naturiol yn lleihau, a hynny dros y byd eang, ac mae hyn oll yn creu gofid am iechyd dynol ryw ac anifeiliaid yr holl fyd.

Mae hyn oll yn gwneud i mi feddwl, oherwydd iechyd da yw'r peth pwysicaf sydd gennym. Pam na ofynnwn ni i dir ein gerddi, neu'r lawntiau a ydynt yn hapus a chyflwr yr elfennau hybrin sydd yn eu pridd. Yr un mwyaf syml ohonynt ydi 'Epsom Salts' sydd ar gael ym mhob fferyllfa a dim ond toddi llawn llwy de mewn galwyn o ddŵr a'i chwistrellu dros ran o'r lawnt neu'r ardd sydd angen ac ym mhen pythefnos fe welwch fod y borfa yn gwella'i olwg. Yr un modd, chwistrellwch hanner y letys, neu fetys ac yna ar ôl rhyw wythnos, cymharwch y blas. Mae yna nifer o'r elfennau hybrin hyn yn bwysig iawn. Yn gyntaf defnyddiwch 'Epsom Salts' a fydd yn siŵr o'ch rhoi ar ben y dalar iawn, a chofiwch, os yn dyfrhau unrhyw beth yn yr ardd ychwanegwch fymryn o 'Epsom Salts' yn y dŵr. Rwy'n

diolch i'r gwyddonwyr am fy atgoffa am hyn oll, yn rhyfedd iawn mewn erthygl fer a hynny ar yr un tudalen am rhyw gecri dwl oedd yn mynd ymlaen yn y Tŷ Cyffredin yn Llundain. Mae hyn yn gwneud chi feddwl beth sy'n bwysig yn y byd hwn.

Nôl at yr ardd, os oes llathen sbâr i gael, mae nawr yn amser ddelfrydol i hau amryw o hadau mân sef moron, erfyn a betys ac mae'n amser da hefyd i blannu allan blanhigion cennin a chêl a phethau felly. Cewch gnydau da cyn Gaeaf nesa ond nawr i ni, yn ein cartref yma, yn gwaghau y rhewgell a'r sbarion rhoddwyd ynddi Hydref diwethaf. Credaf, erbyn hyn, mae ond un pecyn o gêl ac un o domatos sydd ar ôl.

COLOFN LLÊN

Llyfrau

O GLUST i GLUST

gan Llwyd Owen



Dyma nofel ddiweddaraf Llwyd Owen (sydd a'i deulu yn hannu o ardal Y Cardi Bach)

Mae'n awdur poblogaidd sydd wedi cyhoeddi nifer o nofelau ac wedi ennill gwobrau. Nofel dditectif yw 'O Glust i Glust' ac mae llawer o gymeriadau yn y stori.

Yn y dyfodol agos, mewn gwlad debyg iawn i'r Gymru gyfoes, mae yna lofrudd yng Ngerddi Hwyan. Un o'r ditectifs sy'n ymwneud a'r achos yw DS Sally Morris a gafodd brofiad arswydus ei hun dair blynedd yn ôl. Mae'r dystiolaeth yn brin, ond a fydd y ditectif dibrofiad yma yn gallu dod o hyd i'r llofrudd cyn iddo daro eto?

Gwasg y Lolfa; Pris 8 - 99

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS

a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



MASNACHWYR ADEILADU DAVIES

Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor



Heol yr Orsaf
Hendygywyn

Ffôn:
01994 240228

Gorllewin Sir Gâr
Gŵyl Canol Dre 2022:
YN DYCHWELDY!

Cynhelir Gŵyl Canol Dre ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin ar y 9fed o Orffennaf 2022 ac mi fydd yn cychwyn am 11.00yb ac yn parhau tan 8.00yh. Bydd yr ŵyl yn ddiwrnod o hwyl ac adloniant wedi ei hanelu at deuluoedd a phobl ifanc yr ardal a thu hwnt.

Bydd Gŵyl Canol Dre yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau at ddant pawb. Mi fydd yna brif lwyfan lle bydd bandiau adnabyddus o'r sîn roc Gymraeg yn perfformio ynghyd â'r llwyfan berfformio bydd yn cynnwys perfformiadau amrywiol gan ysgolion yr ardal, sioe gan Mewn Cymeriad a Siani Sionc.

Bydd yna amrywiaeth o weithgareddau difyr a bywiog yn digwydd drwy gydol y dydd megis, sesiynau chwaraeon, sesiynau celf a chreffft, gweithdai llên gydag Anni Llŷn, sesiynau stori a chân, gweithdai digidol, gemau a Cloes Ffit gyda Tudur Phillips, disgo distaw, gweithdai drama a dawns a mwyl!

Hefyd mi fydd stondinau ar y maes lle bydd busnesau yn gwerthu nwyddau a chynnyrch a mudiadau lleol yn hyrwyddo eu gwasanaethau. Bydd yna far ac ardal arlwyio yn cynnig amrywiaeth o fwydydd sy'n addas at bawb. Mae mynediad am ddim i'r Ŵyl, felly edrychwn ymlaen at eich cwmni ar y 9fed.

Am fwy o wybodaeth am Gŵyl Canol Dre, cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru

Paned a Sgwrs:

Yn ddiweddar mae'r Fenter wedi dod yn rhan o sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, pob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. I gofrestru, cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

Coffi a Chlonc:

Mae'r sesiynau yma, sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd lau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

Clybiau Drama:

Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gyda alma@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

Clwb Garddio:

Mae'r Fenter yn cydweithio gyda Cered – Menter Iaith Ceredigion i drefnu Clwb Garddio yn Yr Ardd, Pont Tyweli. Pob ail ddydd Sadwrn y mis o 11yb-1yp. Cyfle i blannu a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau. Croeso i bawb; oedolion a teuluoedd (angen oedolyn yn bresennol gyda phlant a pobl ifanc o dan 18 oed). I gofrestru: llinos.hallgarth@ceredigion.gov.uk neu ymholiad@mgsg.cymru

Ras Bryndioddef:

Yn dychwelyd! Fel sawl digwyddiad cymunedol arall dros Gymru, nid yw Ras Bryndioddef wedi cymryd lle ers 2019, ond eleni ar 21ain o Fehefin am 6yh mae'r ras yn dychwelyd i Gastell Newydd Emlyn ac yn cychwyn o Ysgol y Ddwylan. Fe gafodd y ras ei chynnal am y tro cyntaf yn 1976 felly rydym yn edrych ymlaen at gynnal y ras yn 2022. Am y tro cyntaf eleni mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gyfrifol am y ras yn dilyn gwaith ffantastig Adran Emlyn a rydym yn edrych ymlaen at y digwyddiad.

Ras i'r teulu cyfan (£2 y person i gystadlu). Bydd angen rhiant i redeg gyda phlant blwyddyn 1 ac iau. Cofrestru ar y noson gyda bwyd ar gael i'w brynu.

Cyfyngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Fenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfyngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ymholiad@mgsg.cymru

neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y plattfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 01239 712934





Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFORDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod
Mer 24 - 27 Awst	SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth	£340	4 Diwrnod
Sul 4 - 8 Medi	NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd	£595	5 Diwrnod
Llun 5 - 9 Medi	CYMRU a'r GORORAU	£450	5 Diwrnod
Llun 12 - 16 Medi	Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham	£495	5 Diwrnod
Gwe 16 - 19 Medi	PENWYTHNOS HIR o YMLACIO yn EFROG	£310	4 Diwrnod
Gwe 23 - 26 Medi	PENWYTHNOS THEMA YN TORQUAY	£280	4 Diwrnod
Sad 24 - 29 Medi	DARGANFOD TRYSORAU GOGLEDD IWERDDON	£705	6 Diwrnod
Llun 26 - 30 Medi	PENWYTHNOS YMWELD â GOLEUANNAU BLACKPOOL	£310	5 Diwrnod
Sul 2 - 6 Hydref	Dambusters & Lincolnshire Heritage	£490	5 Diwrnod
Sad 8 - 12 Hydref	Magnificent Isle of Man - GOGONEDDAU YNYS MANWY	£485	5 Diwrnod
Gwe 14 - 17 Hydref	WESTON SUPER MARE	£280	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	PENWYTHNOS DDIRGEL MIS HYDREF	£330	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	LOOE & THE CORNISH COAST	£300	4 Diwrnod
Gwe 28 - 31 Hydref	PENWYTHNOS YN BIDEFORD	£280	4 Diwrnod
Gwe 4 - 7 Tachwedd	TAITH UCHELWYDD A GWIN yn DARTMOOR	£300	4 Diwrnod
Llun 14 - 18 Tachwedd	TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY	£395	5 Diwrnod
Gwe 18 - 20 Tachwedd	MARCHNAD NADOLIG YN CHATSWORTH HOUSE	£225	3 Diwrnod
Gwe 25 - 29 Tachwedd	CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO	£430	5 Diwrnod
Gwe 25 - 27 Tachwedd	MARCHNADOEDD NADOLIG - MAENCEINION A CAER	£215	3 Diwrnod
Llun 28 Tach - 2 Rhag	BELGRAVE SANDS, TORQUAY A TINSEL	£355	5 Diwrnod
Gwe 9 - 12 Rhagfyr	TWRCI A THINSEL YN BABBACOMBE	£245	4 Diwrnod
Gwe 30 Rhag - 2 Ionawr	DATHLU Y FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON	£425	4 Diwrnod
Gwe 13 - 16 Ion 2023	ADUNIAD BLYNYDDOL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£230	4 Diwrnod
Gwe 20 - 23 Ion 2023	PENWYTHNOOS ARBENNIG YN GWESTY'R PALACE PAIGNTON	£230	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN	??	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	ffoniwch	4 Diwrnod
Gwe 10 - 12 Mawrth 23	CLIVE a'i Ffrindiau yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£220	3 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk



PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd hapus i'r ddau gefnder yma o Drelech. Bydd Elis yn dathlu ei ben-blwydd yn 11 oed ar ddiwedd mis Mai a Llywelyn yn dathlu ei ben-blwydd yn 2 oed ar ddechrau mis Mehefin.



Penblwydd hapus iawn i Betsi Haf o Feisgyn. Fe fydd hi'n 6 oed ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Efa-Grug a Mari Elli, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin.



Yn dymuno Penblwydd hapus iawn yn 11 oed i Lloyd Hart ar 21ain o Fai ac hefyd i'w chwaer fach Mari Saer-Hart a fydd yn 3 oed ar yr 11fed o Fehefin. Maent yn wŷr ac wyres i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon. Cariad mawr oddi wrth Dad, Mam, Dadcu, Mamgu a'r teulu oll.



Penblwydd Hapus i Alys James o Benybont-ar-Ogwr a oedd yn 6 oed ar Fai 22ain a'i chefnider Steffan Leeke o Hensol a oedd yn flwydd oed ar Fai 24ain. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain, (Ryland a Beti-Wyn James), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus i Gwilym Caeron Snelson, Caerfyrddin a fydd yn 9 oed ar Fehefin 5ed. Cariad mawr wrth Dad a Mam; Caleb; Osian; Tadcu a Mamgu; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll. Pob lwc i ti yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych. Gobeithio bydd Cymru yn ennill y gêm bel-droed ar ddydd dy ben-blwydd!!



OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED

Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab



Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985

Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi

TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW



HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg

(01239) 881630 www.trefigin.cymru (01239) 881282



Daw hyfryd fis ...

★ CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mehefin yw hoff fis Mam-gu Iet-wen gan bod y cloddiau yn llawn o flodau gwyllt hardd.

Fedrwch chi ddyfalu pa fis sydd ar goll o'r chwilair canlynol?



ch	i	r	o	m	w	e	a	l	l	o	ch
r	m	a	i	w	ff	y	i	d	e	m	
a	o	e	n	f	e	r	d	y	h	m	
o	w	i	h	s	b	a	i	ch	i	ff	
th	a	n	ff	e	i	m	o	t	s	o	
r	e	s	rh	o	f	a	e	s	o	dd	
w	o	i	m	ch	r	i	n	w	r	e	
a	g	o	r	ff	e	n	n	a	f	w	
m	n	n	e	w	s	a	o	rh	i	ch	
ch	i	a	rh	m	ff	t	e	s	e	a	
a	ch	w	e	f	r	o	r	ff	a	t	
i	s	r	a	o	m	r	y	e	s	ch	



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/6/22

Cofiwch gystadlu!



Clwb Rygbi San Clêr

Tîm cyntaf: Gorffennodd tîm San Clêr y tymor yn gryf yn ystod y mis diwethaf gyda buddugoliaethau swmpus dros Dalacharn (37 - 3), Doc Penfro (52 - 19) a Llanybydder (25 - 66) ac ar hyn o bryd rydym yn 2il yn Adran 3A Gorllewin tu ôl i Hwlfordd. Mae'r clwb yn edrych ymlaen i'r tymor nesaf a byddant yn ceisio gwthio'n galed am ddychafiad. Bydd y cinio blynyddol eleni ar nos Sadwrn, Mai 21ain yng Ngwesty Nantyffin, Llandysilio

Tîm leuenctid: Cafodd yr ieuencid gêm gyfartal 31-31 yn erbyn Rhydaman ar ddydd Sadwrn, Mai 7fed, yn rownd gyn derfynol cystadleuaeth Plat Sir Gaerfyrddin. Bydd San Clêr yn mynd ymlaen i chwarae Porth Tywyn yn y rownd derfynol yn Nantgaredig ar nos Wener, Mai 20fed gan taw hwythau oedd yn chwarae oddi cartref. Pob lwc i'r bechgyn, yn yr hyn i lawer fydd eu rhediad olaf yn y grŵp oedran hwn, gan fod Undeb Rygbi Cymru wedi newid Rygbi leuenctid o dan 19 i dan 18 oed, ar gyfer tymhorau'r dyfodol. Mae'r clwb yn edrych ymlaen at groesawu'r bechgyn hyn i'r rhen-goedd uwch yn ystod y tymor sydd i ddod. Pob lwc yn y rownd derfynol bois!

Gŵyl Rygbi

Cynhaliwyd Gŵyl Rygbi lwyddianus iawn ar ddydd Sadwrn, Ebrill 24ain. Bu 64 o dimau o bob rhan o Orllewin a De Cymru yn cymryd rhan, dros 1000 o blant 6 – 13 oed a nifer tebyg o gefnogwyr yn bresenol. Roedd y tywydd yn braf drwy

gydol y dydd a cafodd y chwaraewyr, yn ogystal a'r cefnogwyr, amser wrth eu bodd, wrth i'r Wyl ddychwelyd ar ôl absenoldeb o 3 blynedd oherwydd Covid. Roedd yr Wyl yn lwyddiant ysgubol i'r clwb ac mae ein diolch yn mynd i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith yn paratoi ymlaen llaw ac ar y dydd. Rydym yn hynod o ddiolchgar hefyd am y gefnogaeth hael cawsom oddi wrth yr holl noddwyr o fewn y gymuned fusnes leol. Diolch yn ddi-fuant hefyd i'r holl ddyfarnwyr a sicrhodd fod y diwrnod yn rhedeg yn llyfn.



Dyma lun o'r caeau ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal Gŵyl Rygbi San Cler ar Ebrill 24ain



Llun o'r awyr o gae rygbi a clwb San Cler

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD

Croeso i
gleifion GIG!

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk



Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygnyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

parhad o dudalen 40

Bydd yr ail dîm yn chwarae yn erbyn Llechryd yn rownd cyn derfynol Cwpan Percy Eldridge ac yn gobeithio medru curo a chael y cyfle o chwarae mewn rownd derfynol ar ddiwedd y mis.

Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y Clwb am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth. Am fwy o wybodaeth am pryd mae'n gemau - ewch ar wefan "Ceredigion League". Bydd croeso cynnes yn aros amdanoch lawr ar gae Cae Dandre pob amser.



Ail dîm Llanboidy, cyn iddynt chwarae yn erbyn ail dim Llechryd yn rownd gyn derfynol Cwpan Percy Eldridge ar nos Fercher, Mai 10fed. Enillodd Llanboidy o 2 gol i 0, sgoriwyd y ddwy ô gan Ryan Pearce. Pob hwyl i'r bois yn y rownd derfynol

Clwb Rygbi Hendygywyn

Dyma ganlyniadau'r gemau gynhaliwyd dros yr wythnosau diwethaf.

Dynion

Mawrth 23ain: Hendy Gwyn 29 - Crwydriaid Llanelli 28. Ennill ym munud ola'r gêm wrth i Nico Setaro lwyddo i gicio'r cic cosb holl bwysig. Roedd hon yn gêm galed tu hwnt yn erbyn Llanelli gan ei bod wedi ennill ei 5 gêm diwethaf. Sgoriodd Olly Hughes, Harry Fuller a James Thomas gais yr un i Hendy Gwyn, daeth gweddill y pwyntiau wrth i Nico Setaro droi un cais a cicio pedwar cic cosb.

Ebrill 28ain: Cwpan Sir Benfro: Crymych 31 - Hendy Gwyn 15. Hon oedd gêm olaf y tymor wrth i ni golli yn y rownd gyn derfynol yn erbyn Crymych. Cafwyd gêm galed a chyffrous - real gêm gwpan! Sgoriodd Trystan Rees a Lucca Setaro gais yr un a llwyddodd Nico Setaro i droi un o'r ceisiau a cicio cic cosb.

Menywod

Ebrill 4ydd: Pencoed 6 - Hendy Gwyn 17. Teithio lan i Pencoed a chafodd y gêm ei gohirio ar hanner amser am resymau technegol. Sgoriodd Marged Williams dau gais a cafodd Danielle Williams un. Llwyddodd Macey Bowen i droi un ohonynt.

Bydd y gêm nesaf ar Mai 8ed, adref yn erbyn Senghennydd ac yna ar Mai 15ed byddwn yn chwarae yn erbyn Briton Ferry. Pwy bynnag fydd yn ennill y gêm hyn, fydd yn ennill y gynghrair a bydd y tymor ar ben.

Merched dan 16

Ennill erbyn y Sospans o 55-14

Gêm gyffrous iawn wrth i holl bwyntiau Hendy Gwyn ddod yn ystod yr hanner cyntaf.

Merched dan 14

Mai 6ed: Hendy Gwyn 21 - Dinbych y Pysgod 0

Buddugoliaeth gyfforddus i'r merched wrth i Connie Crook sgorio 3 cais a Grace Fuller yn trosi'r cyfan.


Gemau i ddod

Dan 12 - Mai 18fed: I ffwrdd erbyn Wiberod Castell Newydd Emlyn

Dan 14 - Mai 18fed: I ffwrdd erbyn Wiberod Castell Newydd Emlyn

Dan 16 - Mai 8fed: i ffwrdd erbyn Hwlffordd
Mai 15fed: adref yn erbyn y Sospans

Dan 18 - Mai 8fed: I ffwrdd erbyn Hwlffordd
Mai 15fed : adref yn erbyn y Sospans



Dyma lun tîm merched dan 16 oed Clwb Rygbi Hendy Gwyn enillodd yn erbyn Stradey Sospans 42-15 yn ddiweddar. Da iawn ferched!

CHWARAEON

Clwb Bowlio Mat Byr Hendydwyn

Mae'r clwb yn chwarae yn Neuadd y Dref yn Hendydwyn ac yn cwrdd pob nos Fawrth heblaw yn ystod misoedd yr Haf. Mae'r clwb wedi bodoli ers dros 30 mlynedd ac yn aelod o Gymdeithas Bowlio Mat Byr Sir Gaerfyrddin. Un o sylfaenwyr ac aelod blaenllaw o'r clwb yw Ron Jenkins, MBE. Mae e wedi gweithio yn galed dros y blynyddoedd i gadw'r clwb i fynd ac i sicrhau bod popeth yn ei le i sicrhau bod gemau yn medru cael eu chwarae. Yn anffodus nid yw Ron wedi mwynhau y iechyd gorau dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae wedi gorfod rhoi fyny fel swyddog o'r clwb yn ogystal â methu chwarae. Serch hynny mae'n dal yn gefnogol i'r clwb ac yn gobeithio dod nôl i chwarae os bydd ei iechyd yn caniatau.

Tua 15 aelod sydd yn cwrdd yn gyson ar hyn o bryd, as mae bob amser croeso i fwy i ymuno. Dros y blynyddoedd mae'r clwb wedi chwarae yn yr adran gyntaf ac ail yn Sir Gaerfyrddin. Ar diwedd tymor 2019/20 gorffennodd y tîm yn ail yn yr Ail Adran. Roedd hyn i fod meddwl dyrchafiad i'r Adran Gyntaf am tymor

2020/21. Yn anffodus fe ddaeth y Covid a popeth i ben ac ni chwareuwyd yr un gêm yn ystod y tymor.

Gyda'r sefyllfa yn gwella, penderfynwyd cael cystadleuaeth yn 2021/22. Trefnwyd y timau oedd eisiau chwarae mewn i 3 grŵp, gyda gemau adre ac i ffwrdd yn erbyn y timau yn y grŵp. Roedd Hendydwyn yn yr un grŵp â Bronwydd, Llangyndeyrn, Llandyfaelog, Penygroes a Trimsaran. Er nad aeth y canlyniadau cystal ac oeddwn wedi gobeithio, llwyddwyd i gael tîm allan i chwarae y 10 gêm o fewn ein grŵp. Llwyddwyd i ennill 2 gêm, cael 2 gêm cyfartal a colli 6.

Llongyfarchiadau i un o'n aelodau, sef Shashi Patel, a gynrychiolodd India yn Pencampwriaeth Byd Mat Byr a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngwlad Belg.

Cyn gorffen am y tymor bydd yr aelodau yn cymeryd rhan yn y cystadlaethau o fewn y clwb. Byddwn wedyn yn cael saib dros yr Haf cyn ail gychwyn eto ym mis Medi gan obeithio bydd pethau wedi dod nôl i'r arfer erbyn hynny.

Clwb Pêl-droed Llanboidy

Does ddim llawer iawn o bêl-droed ar ôl bellach am dymor 2021-2022, er hyn mae digon o gemau wedi bod yn ystod y mis diwethaf.

Tîm cyntaf


Ers dechrau mis Ebrill, mae tîm cyntaf Clwb Pêl-droed Llanboidy wedi chwarae 5 gêm, tair gêm gynghrair a dwy gêm mewn dwy gwpan wahanol.

Siomedig oedd canlyniadau dros y tair gêm gynghrair gan golli yn gyntaf 5-3 yn erbyn Felinfach gyda goliau Llanboidy yn dod gan Emyr Lewis, Ewan Jones a Ryan Pearce. Gêm gyfartal cafwyd yn erbyn ein cymdogion Crymch o 1-1 gydag unig gôl Llanboidy yn dod gan Ross McDonald. Cafwyd canlyniad siomedig iawn yn ein gêm gynghrair diwethaf yn erbyn pencampwyr y gynghrair sef Llandudoch, colli o 6 i 0.

Roedd tipyn o edrych ymlaen at rownd derfynol Cwpan Dai Dynamo ar yr 2ail o Fai ar gae Pêl-droed Castell Newydd Emlyn yn erbyn Crymch. Roedd dros dri chant o bobol yn gwyllo'r gêm ar ddydd Llun Gŵyl y Banc ond yn anffodus i ni, colli fu ein hanes o 2 gôl i 0.

Dydd Sadwrn, 7fed o Fai fe wnaethom y daith i fyny i gaeau'r Urdd, Llangrannog i chwarae yn erbyn Crannog yng Nghwarter olaf Cwpan Bae Cynghrair Ceredigion. Cafwyd gem gyffrous iawn gyda'r sgôr yn 1-1 ar ôl y 90 munud felly ymlaen i'r amser ychwanegol. Gyda 5 munud ar ôl roedd Llanboidy ar y blaen o 3-1 ond yn anffodus cafwyd dau gôl hwyr gan Crannog i wneud y sgôr yn 3-3. Er hyn, llwyddom i ennill y gêm ar ôl ciciau o'r smotyn. Gyda goliau yn y gêm gan Tomos Rogers (2) a Ross McDonald.

Byddwn yn chwarae yn erbyn Ffostrasol yn y rownd gyn derfynol am y cyfle i fynd trwyddo i rownd derfynol arall.



Tîm cyntaf Llanboidy a gollodd o 2 gol i 0 yn erbyn Crymch yn rownd derfynol Cwpan Dai "Dynamo" Davies

Ail Dîm

Un gêm mae'r ail dîm wedi chwarae yn ystod y mis diwethaf, gyda gêm yn erbyn Maesglas. Yn anffodus colli oedd hanes y tîm o 3 gôl i 2. Dion Morgan a Dylan Blain oedd sgorwyr Llanboidy.